- 18 Wn i ddim, wir. Rydw i'n gobeithio eu bod nhw o leia'n ystyried aros yng Nghymru. *I don't know, indeed. I hope that they are at least considering staying in Wales.*
- a eu bod nhw: *that they are* (L7, N15a and 18b) The word eu is never followed by any sort of mutation, and thus bod: *that* remains unchanged. Note the other forms: ein bod ni: *that we*; eich bod chi: *that you*. Again, you will observe that bod does not change after ein and eich.
- b Aros can either mean *to stay* or *to wait*.
- 19 Ydych, siŵr o fod. Mae ein teulu ni fel eich teulu chi wedi mynd yn fach iawn, on'd ydy e? *Yes, to be sure. Our family like your family has become (lit.: gone) very small, hasn't it?*
- a Ydych is the *yes* response meaning *yes (you are/you do)*.
- b ein teulu ni: *our family* The word ni is an integral part of ein: *our*, but it is separated from ein by the word that ein is directly connected with. Ein is never followed by any sort of mutation.
- c eich teulu chi: *your family* Chi is an integral part of eich: *your*. Like ein and eu: *their*, eich is never followed by any sort of mutation.
- d on'd ydy e?: *hasn't it?* (L2, N33), (App. 7(a))

Y trefniadau *The arrangements*

- 20 Bydd, fe fydd Tom a'i deulu'n cyrraedd y prynhawn yma. *Yes, Tom and his family will be arriving this afternoon.*
- a Bydd: *Yes* (L6, N33a)
- b a'i deulu: *and his family* (L8, N12b)
- 21 Fe fydd y tŷ'n llawn, oni fydd? *The house will be full, won't it? oni fydd* Note that oni is the negative tag to be used with the future and conditional forms of bod, e.g. Oni fydd yn braf?: *Won't it be fine? Oni fyddai'n braf?: Wouldn't it be fine?* (App. 7(c)).
- 22 Bydd. Does dim llawer o le yma. *Yes. There isn't much room here.* llawer o le: *much room* (L6, N35c)
- 23 Fyddwch chi'n bwyta yn y gegin? *Will you be eating in the kitchen?*
- a Fyddwch chi is the question form of fe fyddwch chi: *you will be.*
- b y gegin: *the kitchen* Cegin has undergone a soft mutation to gegin as it is a feminine singular noun coming after the definite article y.
- 24 Byddwn, wrth gwrs. Ble arall? *Yes, of course. Where else?* Byddwn is a *yes* answer form meaning *yes, we will be.*
- 25 Fe fyddwn i'n defnyddio'r parlwr achos mae mwy o le yno. *I would use the parlour because there's more room there.* mwy o le: *more room* Note that the Welsh word for *more* is mwy, and that mwy is followed by the preposition o, which of course causes a soft mutation, e.g. Fe fydd mwy o bobl yn y bwthyn: *There will be more people in the cottage; Rydw i eisiau mwy o fwyd: I want more food.* Mwy can stand independently, e.g. Mae e eisiau mwy: *He wants more.*
- 26 Fydd Tom ddim eisiau imi newid dim. *Tom won't want me to change anything.*
- a eisiau imi newid When we want to refer to a person or thing after the word eisiau: *to want*, then the preposition i: *to* is used to link eisiau and the person or thing. A verb-noun follows that in turn, e.g. Rydw i eisiau i Gymru ennill: *I want Wales to win.*
- b Dim occurs as a noun meaning *anything* in negative sentences, e.g. Dydw i ddim eisiau iddi hi dalu dim: *I don't want her to pay anything.*
- 27 Rydw i'n cysgu yn fy stafell arferol. *I'm sleeping in my usual room.*
- 28 Fe fydd Mari a Branwen yn cysgu yn y stafell wely ffrynt a'r ddau ddyn yn y stafell gefn. *Mari and Branwen will be sleeping in the front bedroom and the two men in the back room.*
- a stafell wely ffrynt: *front bedroom* Gwely: *bed* has undergone a soft mutation to wely since it is a noun with an adjectival function in relation to the feminine singular noun stafell: *room* (L2, N5b).
- b a'r ddau: *and the two* Dau has undergone a soft mutation to ddau following the definite article y, which is incorporated in the word a'r. This change only occurs to the numbers dau (m) and dwy (f): *two* after y, e.g. y ddau fachgen: *the two boys; y ddwy ferch: the two girls.*
- c a'r ddau ddyn: *and the two men* Dyn has undergone a soft mutation to ddyn following dau: *two* (L3, N7c), (App. 12(a)).
- d stafell gefn: *back room* Cefn: *back* has undergone a soft mutation to gefn since it is an adjective following the feminine singular noun stafell: *room* (L2, N3b). Cefn is pronounced cefen in South Wales.
- 29 Fyddwch chi'n cynnu tân yn y parlwr? *Will you be lighting a fire in the parlour?*

**Fyddwch chi?: Will you be?** To form the question *fe* is omitted from in front of *fyddwch*. *Fe* is never used in front of a question form.

- 30 **Byddaf, ac fe fyddan nhw'n gallu cael seibiant yno os byddan nhw eisiau.** *Yes, and they will be able to have a rest there if they (will) want.*

**Byddaf** is a *yes* form meaning *yes, I will be* (App. 1g).

**Cwrdd â Modryb Siân Meeting Aunty Siân**

- 31 **Modryb Siân, dyma ni o'r diwedd. Sut ydych chi? Rydych chi'n edrych yn dda.** *Aunty Siân, here we are at last. How are you? You look well.*

- 32 **Diolch yn fawr. Rydw i'n teimlo'n lled dda ar hyn o bryd ond rydw i'n mynd yn hen.** *Thanks very much. I feel fairly well at the moment but I'm getting (lit.: going) old.* **teimlo'n lled dda** One of the meanings of *lled* is *fairly* and it comes in front of the adjective with which it is linked. Since it begins with the consonant *ll* it does not undergo a soft mutation after the connecting *'n* (*yn*) (L2, N17a). *Lled* is followed by a soft mutation; thus *da* has become *dda*, e.g. **Fe fydd hi'n lled boeth yn y parlwr:** *It will be fairly hot in the parlour.*

- 33 **Dydych chi ddim yn edrych yn hen, beth bynnag.** *You don't look old, anyway.*

- 34 **A dweud y gwir, dydych chi ddim wedi newid o gwbl.** *In fact, you haven't changed at all.*

- 35 **Wel, peidiwch ag aros wrth y drws. Well, don't wait by the door. peidiwch ag aros: don't wait** **Peidiwch â** is the negative command form that we have seen so far. **Â** always changes to **ag** when the word following it begins with a vowel, e.g. **Peidiwch ag ystyried: Don't consider; Peidiwch ag actio: Don't act.**

- 36 **Dewch i mewn a chroeso mawr ichi 'nôl i Gwmllynfi.** *Come inside and a hearty (lit.: big) welcome back to you to Cwmllynfi.*

- a **Dewch:** *come* is the second person plural command form of **dod:** *to come.*

- b **Croeso:** *welcome* has undergone an aspirate mutation to **chroeso** (L4, N5d).

- c **Cwmllynfi** has undergone a soft mutation to **Gwmllynfi** (L1, N34b).

- 37 **Mae'n braf eich gweld chi. Ond ble mae'r plant? It's lovely to see you. But where are the children? eich gweld chi: to see you** You will note that **chi** follows the verb-noun **gweld:** *to see*. This **chi** adds support to the **eich** (the object pronoun) which precedes **gweld**. Note that it is incorrect to say: **Mae'n braf gweld chi** — whereas it is correct to say: **Mae'n braf eich gweld** — without the supporting **chi**. The **chi** must be included if the meaning *you* needs emphasizing. Here are some examples: **Dydw i ddim yn eich cofio chi: I don't remember you; Fe fyddaf i'n eich 'nabod chi: I will recognize you.** The verb-noun (**gweld**, etc.) can be preceded by the other pronouns (**fy**, **ei**, etc.) and the appropriate mutation will follow (App. 13(b) 2).

- 38 **Fe fyddan nhw yma toc. Mae Dewi wedi mynd i barcio'r car ac mae Branwen wedi mynd gyda fe.** *They'll be here soon. Dewi has gone to park the car and Branwen has gone with him.*

- a **mynd i barcio** (N11b)

- b **i barcio** **Parcio:** *to park* has undergone a soft mutation after **i**.

**Part one: Vocabulary**

**anifail** (anifeiliaid) animal  
**gweithiwr** worker  
**pellter** distance

**fe gafodd he, she, it had/got**  
**gwerthu** to sell  
**meddwl** to think  
**roedden nhw** they were

**ardal** district  
**eglwys** church  
**fffenest** window  
**mart** market

**arall** other  
**degfed** tenth  
**diddiwedd** non-stop  
**erioed** ever, always  
**hir** long  
**'slawer dydd** a long time ago  
**trwm** heavy

**disgwyl** to expect  
**doedd hi ddim** she wasn't  
**doedden ni ddim** we were not

**Part one: Notes**

- Unwaith roedd ein teulu ni i gyd yn byw yma yng Nghwmllynfi.** *Once all our family lived here in Cwmllynfi.*
- Fe gafodd 'nhad ei eni yma ac roedd e'n byw yn y bwthyn drws nesaf i'r siop.** *My father was born here and he lived in the cottage next door to the shop.*  
a **Fe gafodd 'nhad ei eni:** *My father was born* (lit.: *My father had his birth.* cf. L8, N24d). **Geni:** *to be born, to bear* has undergone a soft mutation after **ei:** *his* and has changed to **eni**, since the **ei** refers to a masculine person **'nhad** (L8, N12b), e.g. **Fe gafodd Winston Churchill ei eni yn 1874: Winston Churchill was born in 1874.** If the person referred to is feminine then **ei geni** would be the correct form, e.g. **Fe gafodd Florence Nightingale ei geni yn 1820: Florence Nightingale was born in 1820.**
- ac roedd** **Ac** is used since the literary form of **roedd** is **yr oedd** (L1, N39).
- Gweithiwr ffordd oedd fy nhadcu ac roedd ei deulu e wedi byw erioed yn yr ardal.** *My grandfather was a road worker (lit.: A road worker was my grandfather) and his family had always lived in the district.*  
a **Oedd** is the emphatic form of **roedd:** *he was*, and it is used here since **gweithiwr ffordd** comes first in the sentence.  
b **fy nhadcu:** *my grandfather* (L1, N24)  
c **ei deulu e:** *his family* (L8, N12b)  
d **Erioed** means *always* or *ever* when the sentence is affirmative. When the sentence is negative **erioed** means *at all* or *never*, e.g. **Dydw i ddim wedi bod yn Iwerddon erioed:** *I have never been to Ireland.*  
e **roedd ei deulu e wedi byw:** *his family had lived* (App 1e)
- Fe gafodd Dewi a minnau ein geni yma hefyd.** *Dewi and I were born here too* (lit.: *Dewi and I had our birth here too*). **Fe gafodd:** *he/she*

*had* is used here again, as in Note 2a, even though more than one person is referred to. You will recall that in Welsh even though the subject is plural (**Dewi a minnau**), the verb (**fe gafodd**) still remains in the singular.

- 5 **Ond doedden ni ddim yma'n hir iawn.** *But we weren't here very long.*
- 6 **Doedden ni ddim yn disgwyl gweld Modryb Siân yn edrych gystal.** *We weren't expecting to see Auntie Siân looking so well.* **gystal** (L9, N9b)
- 7 **A dweud y gwir, dydy hi ddim yn edrych yn hen o gwbl ac mae hi wedi bod yn siarad yn ddiidiwedd drwy'r bore.** *In fact, she doesn't look old at all and she's been talking non-stop all (lit.: through the) morning.* **yn ddiidiwedd** **Diddiwedd:** *non-stop* has undergone a soft mutation after the connecting **yn**. **Diwedd** means *end, termination* but it is preceded here by the negative prefix **di**, which causes the element following it to undergo a soft mutation. Hence **diwedd** has become **diddiwedd**.
- 8 **Roeddwn i'n bwriadu mynd am dro o gwmpas y pentref y bore yma ond doedd y tywydd ddim yn caniatáu.** **Roedd hi'n bwrw glaw'n drwm iawn.** *I intended to go for a walk around the village this morning but the weather did not permit (lit.: wasn't permitting). It was raining very heavily.*
- a **Doedd y tywydd ddim** is the negative of **roedd y tywydd**. **Doedd...** **ddim** is the negative of **roedd** (App. 1d).
- b **Caniatáu:** *to permit, to allow* is accentuated on the final syllable. As you have observed the last syllable but one of a word in Welsh is the one usually emphasized.
- c **Trwm:** *heavy* has undergone a soft mutation to **drwm** after the connecting **yn**.
- 9 **Drwy ffenest y parlwr roeddwn i'n gallu gweld y siop a'r garej a'r eglwys yn y pellter ond doeddwn i ddim yn gallu gweld y capel.** *Through the parlour window I could see the shop (and) the garage and the church in the distance but I couldn't see the chapel.* **Garej** is a word borrowed from English and hence does not mutate here after **a'r** (L6, N2a).
- 10 **Roedden nhw'n cynnal mart anifeiliaid yma 'slawer dydd ac mae 'nhad yn cofio pedwar tafarn arall, yn ogystal â'r ddau sydd yma heddiw.** *They used to hold a livestock market here a long time ago and father remembers four other pubs, as well as the two which are here today.*
- a **mart:** *market* **Mart** is used in South Wales to refer to a market where livestock is bought and sold. Otherwise, the word **marchnad** is used to refer to a market where goods etc. are for sale.
- b **anifeiliaid:** *livestock* (lit.: *animals*)
- c **'Slawer dydd** is a colloquial version of **ers llawer dydd:** *a long time ago* (lit.: *since many a day*).
- 11 **Chwech o dafarnau mewn pentref bach, meddylwch!** *Six pubs in a small village, just imagine* (lit.: *think!*)
- a **o dafarnau** **Tafarnau:** *pubs* has undergone a soft mutation after **o**.
- b **Meddylwch:** *think* is the polite command form of **meddwl:** *to think*.

#### Part two: Vocabulary

**cwbl** lot, the whole lot  
**cyflwynydd** compère  
**digrifwr** comedian

**grŵp** group  
**hufen** cream  
**lliw** colour

**parti party**  
**pennill (penillion) verse**

**bresych** (pl.) cabbage  
**ffrogiau** dresses  
**noson** night  
**stori (straeon)** story  
**telynores, y delynores** harpist  
**tomato (tomatos), y domato**  
tomato  
**torth, y dorth** loaf

**cytuno** to agree  
**fe fyddi di** you will be (fam.)  
**gadael** to leave, to let  
**mwynhau** to enjoy  
**oeddech chi?** were you?  
**on'd oedden nhw?** weren't they?

**â/ag** as

**brown brown**  
**deng munud wedi un ar ddeg** ten  
past eleven  
**doniol** funny  
**eraill** (pl.) other  
**erbyn pryd** by when  
**fe fydd yn well ichi** you'd better  
**ffres** fresh  
**llawen** merry  
**mewn pryd** in time  
**mor hen a(g)** as old as  
**nac oeddyn** no (I wasn't)  
**oedden yes** (they were)  
**olaf** last, final  
**penigamp** excellent  
**pum munud ar hugain i** twenty  
five to  
**pum munud wedi** five past  
**rhywbeth** something  
**wedyn** then; afterwards

#### Part two: Notes

**Siop y pentref** *The village shop*

- 12 **Oeddech chi eisiau moron?** *Did you want (lit.: Were you wanting) carrots?* **Oeddech chi:** *were you* is the question form of **roeddech chi:** *you were*.
- 13 **Nac oeddwn, dim ond tatws a phys. Ac roeddwn i eisiau rhywbeth arall hefyd. Beth oedd e 'nawr?** *No, only potatoes and peas. And I wanted (lit.: was wanting) something else too. What was it now?*
- a **Nac oeddwn** is the negative response meaning *No, I wasn't*. You note that **nac** is placed in front of the positive form of the verb which does not have the consonant **r** at its beginning, e.g. **roeddwn** – **nac oeddwn:** *no (I wasn't)*; **roedd** – **nac oedd:** *no (he/she/it wasn't)*; **roedden** – **nac oedden:** *no (we weren't)*. **Nac** is pronounced **nag**.
- b **Pys:** *peas* has undergone an aspirate mutation after **a:** *and* (L4, N5d).
- c **Beth oedd e** **Beth:** *what* is followed by the emphatic form of the verb and **roedd** changes to **oedd**, cf. **Beth ydy e?:** *What is he (it)?*
- 14 **Ffa... bresych... tomatos... Beans... cabbage... tomatoes...**
- a **Bresych:** *cabbage* is the plural form of **bresythen** which is rarely used. People also use the word **cabait**, pronounced **cabetsh**.
- b **Tomatos** is a word, like **cabait**, which has been borrowed from the English. Note the plural ending **os** and not **oes**. The singular form is **tomato**.
- 15 **Nage. Rydw i'n cofio 'nawr. Roeddwn i eisiau torth o fara brown.** *No, I remember now. I wanted a loaf of brown bread.*  
**torth o fara** **Bara:** *bread* has undergone a soft mutation after **o**.
- 16 **Torth fawr neu un fach?** *A large loaf or a small one?*
- a **Torth fawr:** *a large loaf* **Mawr** has undergone a soft mutation since it is an adjective following the singular feminine noun **torth** (L2, N3b).

- b un fach:** *a small one* **Un:** *one* refers to the feminine noun **torth**. Thus **bach:** *small* has undergone a soft mutation to **fach** since it follows the number **un**, which refers to a feminine noun. Note that if the number **un** had referred to a masculine noun (like **tafarn**) then **bach** would not have undergone a mutation. Feminine nouns undergo a soft mutation after **un** (App. 12(a)).
- 17 Un fawr ffres, os gwelwch yn dda.** *A large fresh one, please.*  
**Un fawr Mawr:** *large* has undergone a soft mutation (Note 16b).
- 18 Dyna'r cwbl 'nawr?** *Is that the lot now?* **Dyna'r** means *That's the* but the tone of voice can change the statement into a question without the sentence changing its structure in any way, e.g. **Dyna'r siop:** *That's the shop.* **Dyna'r siop?:** *Is that the shop?*
- Holi am fws** *Inquiring about a bus*
- 19 Esgusodwch fi, oes bws i'r dref heno?** *Excuse me, is there a bus to town tonight?*
- a Esgusodwch** is the polite command form meaning *excuse*. The command ending **wch** has been added to the stem of the verb-noun **esgusodi:** *to excuse*.
- b i'r dref:** *to town* (lit.: *to the town*) The definite article **y** is used in front of **tref:** *town* in Welsh (L1, N8c).
- 20 Oes, mae un am bum munud wedi chwech, y nesaf am bum munud ar hugain i saith, a'r nesaf wedyn am bum munud wedi saith. Erbyn pryd ydych chi eisiau cyrraedd?** *Yes, there is one at five past six, the next at twenty five to seven, and the next then at five past seven. By when do you want to arrive?*
- a am bum munud** **Pum** has undergone a soft mutation following **am** (L3, N6a).
- b am bum munud wedi chwech:** *at five past six* Note that we use the word **munud:** *minute* in Welsh, although it is not essential in English.
- c am bum munud ar hugain i saith:** *at twenty five to seven* (lit.: *at five minutes on twenty to seven*) **Munud** comes BETWEEN **pum** and **ar hugain**.
- d ar hugain** **Ugain:** *twenty* changes to **hugain** after **ar** (App. 17d).
- 21 Rydw i'n mynd i'r Noson Lawen yn Neuadd yr Eglwys.** *I'm going to the Noson Lawen in the Church Hall.* **Llawen:** *merry* has undergone a soft mutation to **lawen** since it is an adjective following the feminine singular noun **noson** (L2, N3b). A Welsh **Noson Lawen** is a concert with a variety of items included in it. Humour and laughter are its main features.
- 22 Mae hi'n dechrau am hanner awr wedi saith.** *It starts at half past seven.*
- 23 Fydd bws pum munud wedi saith ddim yn cyrraedd mewn pryd. Felly, fe fydd yn well ichi adael y sgwâr am bum munud ar hugain i saith.** *The five past seven bus won't arrive in time. So you'd better leave the square at twenty five to seven. fe fydd yn well ichi adael: you'd better leave* **Gadael:** *to leave* has undergone a soft mutation to **adael** since it follows **ichi** (L6, N10c).
- 24 Ac am faint o'r gloch fydd y bws olaf yn gadael y dref?** *And at what time (when) will the last bus be leaving town?*
- a am faint o'r gloch:** *at what time* (lit.: *at how much of the clock*)

- b fydd** Since a question is being asked the question form of **fe fydd** is used and the **fe** is dropped (L9, N29a).
- c y bws olaf:** *the last bus* **Olaf** means *last* in the sense of *final*.
- 25 Am hanner awr wedi deg. Fe fydd yn cyrraedd Cwmllynfi am ddeng munud wedi un ar ddeg.** *At half past ten. It will arrive in Cwmllynfi at ten past eleven.*
- a am ddeng munud** **Deg:** *ten* changes to **deng** before **munud** and **mlynedd**, e.g. **deng mlynedd:** *ten years*. However, in spoken Welsh there is a marked tendency for **deg** to remain unchanged in such a position.
- b am ddeng** **Deng** has undergone a soft mutation following **am** (App. 17d).
- 26 Llauer o ddiolch ichi.** *Many thanks to you* (lit.: *A lot of thanks*).  
**o ddiolch** **Ddiolch** is the soft mutated form of **diolch** (L2, N7c).
- Yn y Noson Lawen** *At the Noson Lawen*
- 27 Wyt ti wedi mwynhau'r hanner cyntaf?** *Have you enjoyed the first half?*
- 28 O, ydw!** **Roedd Dafydd Elwyn yn wych. Ond beth oedd enw'r grŵp yna?** *Oh, yes! Dafydd Elwyn was excellent. But what was the name of that group?* **enw'r grŵp yna:** *the name of that group*
- 29 Hirwallt.** *Longhair.* **Hirwallt** is a fictitious pop group. Note that **gwallt** means *hair* and the adjective **hir:** *long* comes in front, causing a soft mutation.
- 30 Nage, y merched eraill yna mewn ffrogiau lliw hufen.** *No, those other girls in cream coloured dresses.*
- a y merched eraill yna:** *those other girls* **Eraill** is the plural form of **arall:** *other*. It follows plural nouns, and does not precede them (L8, N9a).
- b ffrogiau lliw hufen:** *cream coloured dresses or dresses of the colour of cream*
- 31 O, Y Doliau! On'd oedden nhw'n dda?** *Oh, The Dolls! Weren't they good?*
- a Y Doliau** is the name of a fictitious pop group.
- b Oedden nhw** is the question form (and the emphatic form) of **roedden nhw:** *they were*.
- 32 Oedden, roedden nhw'n broffesiynol iawn ond doedd y digrifwr ddim yn ddoniol o gwbl.** *Yes, they were very professional but the comedian wasn't funny at all.*
- a Oedden** is the *yes* response meaning *yes, they were*.
- b Proffesiynol:** *professional* has undergone a soft mutation to **broffesiynol** following the connecting **'n** (**yn**).
- c Doniol:** *funny* has undergone a soft mutation for the same reason.
- 33 Rydw i'n cytuno. Roedd ei straeon mor hen ag Adda.** *I agree. His stories were as old as Adam.* **mor hen ag:** *as old as* We can say that something is *as old as* something else by placing **mor** in front of the adjective and **â:** *as* after it. This is the pattern to follow with most adjectives, e.g. **mor lwcus â:** *as lucky as;* **mor hapus â:** *as happy as.* You know that **â:** *as* has changed to **ag** since it precedes a vowel (L9, N35), (App. 11(d) 2).
- 34 Ond fe fyddi di'n hoffi'r canu penillion yn yr ail hanner. Mae parti penigamp o Gaerdydd yn canu.** *But you will like the penillion singing. There's an excellent group from Cardiff singing.*



- a Fe fyddi di is the future form of the familiar form: *you will be.*
- b Canu penillion is a traditional form of singing to the accompaniment of the harp.
- c Penigamp has no stress on the penultimate syllable; rather the final syllable is accentuated.
- d Caerdydd has undergone a soft mutation after o.
- 35 Mae'n well inni frysio. Mae'r cyflwynydd ar y llwyfan a dyma'r delynores yn dod. *We'd better hurry. The compère is on the stage and here's the harpist coming.*
  - a Brysio: *to hurry* has undergone a soft mutation to frysio following inni (L6, N10c).
  - b Telynores: *harpist* has undergone a soft mutation to delynores since it is a feminine singular noun coming after the definite article 'r (L1, N10b). Note the feminine ending es which has been added to the masculine noun telynor: *harpist* (L1, N16c).

Gwers un ar ddeg Dydd Sul  
 Lesson eleven Sunday

Part one: Vocabulary

angen need	ac yn y blaen and so on
capelwr chapelgoer	am since, because
cloc clock	ar un adeg at one time
cwm (cymoedd) valley	chwech o'r gloch six o'clock
eglwyswr churchgoer	dau o'r gloch two o'clock
emyn(-au) hymn	difyr pleasant; entertaining
gwasanaeth service	dydd Sul Sunday
hwyr evening	ei hun itself, himself, herself
rhiant (rhieni) parent	ein bod ni that we
nos evening; night	fel arfer usually; as usual
oedfa religious meeting	fel y cloc regularly
Ysgol Sul Sunday School	hyn a'r llall this and that
	llai fewer, less; smaller
	llai byth fewer still
arfer to use to, to accustom	prin short, scarce, rare
cael to allow	roedd rhaid iddi hi she had to
doedden nhw ddim they were not	tlawd poor
gwrthod to refuse	unfed ar ddeg eleventh
helpu to help	

Part one: Notes

- 1 Pan oeddwn i'n blentyn doeddwn i ddim yn arfer hoffi dydd Sul. *When I was a child I didn't use to like Sunday.*

- a Pan oeddwn The letter r is missing in oeddwn i. Similarly one would say, for example, pan ydych and pan ydw and not pan rydych and pan rydw. All forms of the present and imperfect tenses of bod: *to be* omit the letter r when following pan since it is always followed by the emphatic form of the verb.
- b oeddwn i'n blentyn Plentyn: *child* has undergone a soft mutation (L1, N18a).
- 2 Doedden ni ddim yn cael chwarae yn y stryd o gwbl — *We weren't allowed to play in the street at all* — Cael means *to get, to have* usually, but it can also be used idiomatically followed by another verb to mean *to allow*, e.g. Rydw i'n cael mynd i'r theatr: *I'm allowed to go to the theatre.*
- 3 dim ond mynd i'r capel a darllen ac yn y blaen. *only going to chapel and reading and so on.* Capel is always preceded by the definite article in Welsh, cf. i'r gwely, i'r dref.
- 4 Doedd 'nhad ddim yn gapelwr. Eglwyswr oedd e ond roedd e'n hoffi ei beint hefyd. *My father wasn't a chapelgoer. He was a churchgoer but he liked his pint too.*
- a yn gapelwr Gapelwr is a soft mutated form of capelwr: *chapelgoer* (L1, N18a). Capelwr literally means a *chapelman* (L4, N30b).
- b Eglwyswr literally means a *churchman* (L4, N30b).
- c ei beint: *his pint* Beint is a soft mutated form of peint: *pint* (L8, N12b).
- 5 Er ein bod ni'n eithaf tlawd doedden ni byth yn ũrin o fwyd a doedd 'mam byth yn gwrthod helpu rhywun mewn angen. *Although we were quite poor we were never short of food and mother was never refusing to help someone in need.*
- a Er ein bod ni (L9, N5a)
- b ein bod ni: *that we* (L9, N18a)
- c yn brin Brin is a soft mutated form of prin: *short, scarce* (L1, N18a).
- d o fwyd Fwyd is a soft mutated form of bwyd: *food* (L2, N7c).
- e Mewn angen is an expression meaning *in need*.
- 6 Roedd fy rhieni wedi mynd i fyw i'r Rhondda ar un adeg ond doedden nhw ddim yn hoffi'r cymoedd. *My parents had gone to live in (lit.: to) the Rhondda at one time but they didn't like the valleys.*
- a Roedd fy rhieni wedi: *My parents had* Note the imperfect tense verb roedd being used with wedi in order to convey the pluperfect tense *had*. Note the following varying patterns: Rydw i'n darllen: *I'm reading*; Rydw i wedi darllen: *I have read*; Roeddwn i'n darllen: *I was reading*; Roeddwn i wedi darllen: *I had read*; Fe fyddaf i'n darllen: *I shall be reading*; Fe fyddaf i wedi darllen: *I shall have read* (App. 1).
- b i fyw Fyw is a soft mutated form of byw: *to live* (L1, N34b). Mynd is linked with a verb-noun by i. The same applies to dod: *to come*.
- c i'r Rhondda: *to the Rhondda* You will note that the definite article y ('r) is used here in front of a place name. Some place names in Welsh are preceded by the definite article, e.g. Y Barri, Y Rhyl, Y Fflint, Y Bala. The Rhondda Valley is about twenty miles north of Cardiff.
- d Doedden nhw ddim is the negative of roedden nhw: *they were*.
- 7 Ond sŃn am y Sul roeddwn i. *But I was talking about (lit.: the) Sunday.* You have seen that the full version for *Sunday* in Welsh is dydd Sul. Here, the word dydd: *day* has been omitted and Sul is

preceded by *y*: *the*. We do this when we want to refer to a day in general terms, and not to a particular day, e.g. *Rydw i'n arfer mynd i'r gêm ar y Sadwrn*: *I usually go to the match on Saturday*.

- 8 **Doedd 'mam ddim yn mynd i wasanaeth y bore fel arfer achos roedd rhaid iddi hi baratoi cinio.** *Mother didn't usually go to the morning service because she had to prepare dinner.*
- a Wasanaeth is a soft mutated form of **gwasanaeth**: *service* (L1, N34b).
- b Fel arfer can mean *usually* or *as usual*.
- c **roedd rhaid iddi hi:** *she had to* **Iddi** is the *she* form of the preposition *i*, and the *hi* supports the feminine form.
- d **iddi hi baratoi** **Baratoi** is a soft mutated form of **paratoi**: *to prepare* (L6, N10c). Note that the accent in the word *paratoi* falls on the final syllable, cf. *caniatáu* (L10, N8b).
- 9 **Am hanner awr wedi deg roeddwn i yno fel y cloc gyda 'nhad, ac wedyn yn yr Ysgol Sul am ddau o'r gloch.** *At half past ten I used to be there regularly (lit.: like the clock) with my father and afterwards in (the) Sunday School at two o'clock.* **Ddau** is a soft mutated form of **dau**: *two* (L3, N6a).
- 10 **Am chwech o'r gloch aen ni i gyd i wasanaeth yr hwyr.** *At six o'clock we all used to go to the evening service.*
- a **Aen ni** is a short form of **roedden ni yn mynd**: *we were going* or *we used to go* (App. 3(a) 2).
- b **yr hwyr** **Hwyr** can be an adjective meaning *late*, but here it is a noun meaning *evening*. You note that *yr*: *the* is placed in front of **hwyr** (L3, N11b).
- 11 **Doeddwn i ddim yn hoff o'r gwasanaeth ei hun ond roedd hi'n ddfyfr wedi'r oedfa am fod pawb yn dod i'n tŷ ni i ganu emynau ac i sgwsio am hyn a'r llall yn y parlwr.** *I wasn't fond of the service itself but it was pleasant after the service since everyone used to come to our house to sing hymns and to chat about this and that in the parlour.*
- a **o'r gwasanaeth ei hun** **Ei hun** means *itself* here, but can also mean *himself* or *herself*. The form **hunan** is also used, especially in South Wales.
- b **roedd hi'n ddfyfr** **Ddfyfr** is a soft mutated form of **difyr**: *pleasant* (L1, N18a).
- c **am fod** **Fod** is a soft mutated form of **bod**: *to be* (L3, N6a). We have already seen that **am** can mean *about* (*siarad am*) and *at* (*am ddau o'r gloch*). Here it means *because, since*. Like **er** (N5a), it cannot be followed by a verb but it can be followed by the pattern **fy mod i**, etc.
- d **i'n tŷ ni** **I'n** is a shortened form of **i ein** and it is the correct way to say *to our*. The pronouns **ei**, **ein**, **eich**, **eu** shorten when they follow linking words and prepositions which end in a vowel, cf. **a'i** (L9, N7b).
- e **i ganu** **Ganu** is a soft mutated form of **canu**: *to sing* (L1, N34b).
- f **hyn a'r llall**: *this and that* (lit.: *this and the other*)
- 12 **Dyna hwy!** *What (lit.: There's) fun!*
- 13 **'Nawr does dim llawer yn y capel yn y bore a llai byth yn y nos.** *Now there aren't many in chapel in the morning and fewer still in the evening.*
- 14 **Fel popeth arall mae'r capel yn newid.** *Like everything else the chapel is changing.*

## Part two: Vocabulary

aderyn bird  
barcut red kite  
bryn hill  
crwt boy  
cwpanaid cupful  
chwant desire, appetite  
dwsin dozen  
oen lamb  
pethau (pl.) things  
pregethwr preacher

pobl ddieithr, y bobl ddieithr  
strangers  
pregeth, y bregeth sermon  
sedd seat

doeddet ti ddim you weren't (fam.)  
fe fydd chwant bwyd arnat ti  
you'll be hungry (fam.)  
(chwant bwyd ar hungry)  
fe fyddet ti you would (fam.)  
fyddech chi? would you?  
gwyllo to watch  
hofran to hover  
licio to like  
neidio to jump  
oedd? was?  
oedden nhw? were they?  
on'd wyt ti? don't you? (fam.)

## Part two: Notes

**Holi am yr oedfa** *Asking about the service*

- 15 **Oedd llawer yn yr oedfa y bore yma, Tom?** *Were there many in the service this morning, Tom?* **Oedd** is the questioning form of **roedd**: *was*. Here it means *were* since the subject **llawer**: *many* is plural (L1, N20a).
- 16 **Nac oedd, dim ond rhyw ddwsin, fwy neu lai. Mae pethau'n newid yng Nghwmlllynfi. Pan oeddwn i'n grwt roedd y lle'n llawn heb un sedd wag.** *No, only about a dozen, more or less. Things are changing in Cwmllynfi. When I was a boy the place was full without a single empty seat.*
- a **Nac oedd** is the *no* response to convey *no, there wasn't*.
- b **rhyw ddwsin**: *some dozen* **Rhyw**: *about a, some* causes the word following it (**dwsin**) to undergo a soft mutation.
- c **fwy neu lai**: *more or less* **Fwy** is a soft mutated form of **mwy**: *more*, and the mutation has occurred since this is an adverbial expression (L9, N9b).
- d **neu lai**: *or less* **Lai** is a soft mutated form of **llai**: *less* (L3, N25a).

- e roeddwn i'n grwt Grwt is a soft mutated form of crwt: *boy* (L1, N18a). Crwt is a word often used by South Walian instead of bachgen whilst in North Wales the word hogyn is the alternative used.
- f sedd wag: *empty seat* Wag is the soft mutated form of gwag: *empty* (L2, N3b).
- 17 Ond doedd dim byd arall yn y pentref y pryd hynny. *But there wasn't anything else in the village then.* y pryd hynny: *then* (lit.: *that time*) Note the definite article y: *the* preceding pryd.
- 18 Doedden nhw ddim yn gallu neidio i mewn i gar a mynd i'r dref fel pobl ifanc heddiw, oedden nhw? *They weren't able to jump into a car and go to town like young people today, were they?* i gar (L1, N34b)
- 19 Eithaf gwir. Doedd dim sinema, dim teledu, dim byd ond y capel. Gyda llaw, oedd y bregeth yn dda? *Quite true. There was no cinema, no television, nothing but the chapel. By the way, was the sermon good?*
- a Gyda llaw: *By the way*
- b y bregeth Bregeth is a soft mutated form of pregeth: *sermon* (L1, N10b).
- 20 Oedd, yn eithriadol, mewn gwirionedd. Dyn ifanc, addawol oedd y pregethwr hefyd, myfyriwr o Goleg Bala-Bangor, rydw i'n credu. *Yes, exceptional in fact. The preacher was a young, promising man too, a student from Bala-Bangor College, I think* (lit.: *I believe*).
- a Oedd is the *yes* response meaning *yes, he* (or *she*, or *it*) was.
- b o Goleg (L2, N7c) Coleg Bala-Bangor is a theological college in Bangor, North Wales. At one time the College was sited at Bala, some forty miles away.
- 21 A beth am y canu? *And what about the singing?* Note that canu here is a noun but has the same form as the verb-noun which means *to sing*.
- 22 Doedd y canu ddim cystal ond, chwarae teg, doedd dim llawer yno i ganu'r emynau. Ond roeddwn i'n mwynhau eu canu nhw. *The singing wasn't as good but, fair play, there weren't many there to sing the hymns. But I enjoyed* (lit.: *was enjoying*) *their singing*.

#### Maes am dro *Out for a walk*

- 23 Roeddwn i'n gallu gweld dy fod ti eisiau dod maes. *I could see that you wanted to come out.* Dy fod ti means *that you* (the familiar form). You will note that bod has undergone a soft mutation and has changed to fod (L8, N24b).
- 24 Oeddwn, a doeddet ti ddim wrth dy fodd yn eistedd o flaen y teledu, 'chwaith. *Yes, and you weren't in your element either sitting in front of the television.*
- a Oeddwn is the *yes* response meaning *yes, I was*.
- b Doeddet ti ddim is the familiar negative form meaning *you were not*.
- c Wrth dy fodd: *in your element* (the familiar form) (See L9, N8a.) Bodd has undergone a soft mutation (N23).
- 25 Nac oeddwn. On'd ydy hi'n oer yma ar y bryn? *No. Isn't it cold here on the hill?*
- 26 Fe fyddet ti'n dwym yn y parlwr ond fe fydd chwant bwyd arnat ti ar ôl cerdded. *You would be warm in the parlour but you'll be hungry after walking.*

- a ti'n dwym Dwym is a soft mutated form of twym: *warm* (L1, N18a).
- b fe fydd chwant bwyd arnat ti: *you'll be hungry* (lit.: *there will be a desire for food on you*) Chwant means *desire* or *appetite* and it is used with the preposition ar: *on*, e.g. Roedd chwant bwyd ar y ferch: *The girl was hungry*. Ar is a preposition that can change its form according to the person one talks about, and arnat ti: *on you* is the familiar you form of ar. There are a number of idioms based on the preposition ar (cf. L6, N12a), (App. 14(a) ii).
- 27 Bydd. Ond beth ydy'r aderyn yna'n hofran dros y cae acw, Dewi? Rwy'ti'n ei weld e, on'd wyt ti? *Yes. But what is that bird hovering above the field over there, Dewi? You do see it, don't you?*
- a beth ydy'r aderyn yna?: *what is that bird?* Beth is followed by a verb, and here it is followed by the emphatic form of mae —ydy. However, beth can be followed by mae itself, but which of these two forms that one uses depends on how the sentence is completed, e.g. Beth mae John? as a question is incomplete and incorrect, since it needs something like the English words *doing, singing* to complete it. On the other hand: Beth ydy John? is complete and various answers could be given — Saer ydy John, Pregethwr ydy John, etc. In this instance Beth ydy'r aderyn yna? is in itself a complete question.
- b ei weld e: *see it* (L9, N37) Weld is a soft mutated form of gweld: *to see*.
- 28 Ydw. Dyna lwc! Barcut ydy e, aderyn prin iawn. Ac mae e'n gwylio oen yn y cae. *Yes. What luck! (lit.: There's luck!) It's a red kite, a very rare bird. And it's watching a lamb in the field.*
- Barcut ydy e When a Beth ydy question is asked, the answer given will be of an emphatic nature, with the information asked for coming first in the sentence.
- 29 Druan ohono fe! *Poor thing!* This expression conveys one's pity towards a male person or thing. You might also hear, Druan ag e! Ohono fe: lit.: *of him*, is the *him* form of the preposition o: *of* (App. 14(a) i).

#### Gwahoddiad *An invitation*

- 30 Pobl ddieithr ydych chi, yntê? *You are strangers, aren't you?*
- a Pobl ddieithr Ddieithr is a soft mutated form of dieithr (L2, N3b). Note that ddieithr is the written form: people say ddiethr.
- b yntê: *aren't you* (L9, N15) The meaning of yntê changes in tense and person according to the preceding verb. It is always used when the sentence does not start with a verb, e.g. Meddyg oedd e, yntê?: *He was a doctor, wasn't he?*; Emynau da ydyn nhw, yntê?: *They are good hymns, aren't they?*; Asgellwr fyddwch chi, yntê?: *You'll be a winger, won't you?* (App. 7f). An alternative spoken form is yntefe.
- 31 Roeddwn yn gallu eich gweld chi'n dringo'r bryn tu ôl i'r tŷ yma ac rydw i'n siŵr eich bod chi'n oer ofnadwy. *I could see you climbing the hill behind this house and I'm sure that you're terribly cold.* Ofnadwy means *terrible* when it follows the connecting yn directly, e.g. Mae'r tywydd yn ofnadwy: *The weather is terrible*. But when it qualifies an adjective, it changes to *terribly*, e.g. Roedd y tywydd yn dwym ofnadwy: *The weather was terribly warm*.

- 32 Ydyn, ond roedd hi'n iachus yno. *Yes, but it was healthy there.*
- 33 Fyddech chi'n licio cwpanaid o de twym? *Would you like a cup of hot tea?*
- a Fyddech chi asks a question *Would you* (the polite form).
- b licio: *to like* Many people say licio or lico; others say hoffi, which is more refined than licio.
- c cwpanaid: *a cup(ful)* Usually, the ending aid denotes that the particular object is full. Here aid has been added to cwpan: *cup*. People in southern Wales will invite you to have a dysglaid o de; dysgl: *dish*.
- d o de De is a soft mutated form of te (L2, N7c).
- 34 Bydden, bydden wir. Rydych chi'n hynod o garedig. *Yes, yes indeed. You are remarkably kind.*
- a Bydden is the *yes* response meaning *yes, we would*.
- b hynod o garedig Hynod means *remarkable* when it follows a noun, e.g. Mae hi'n ferch hynod: *She's a remarkable girl*. Used with the preposition o and an adjective hynod means *remarkably*, e.g. hynod o dwym: *remarkably warm*; hynod o oer: *remarkably cold*.
- 35 Peidiwch â sôn. Dewch i mewn â chroeso. *Don't mention (it). Come inside and (lit.: with) welcome.*

## Gwers deuddeg

## Ar lan y môr

## Lesson twelve

## At the seaside

## Part one: Vocabulary

bae bay	am to want
cip glimpse	difetha to spoil
clogwyn cliff	fe fyddai he/she/it would
cyfle opportunity	fe fyddech chi you would
diwrnod day	
gorwel horizon	ar lan y môr at the seaside
pen top; head	aur gold
penrhyn peninsular	awyr-agored open-air
picnic picnic	deuddeg twelve
traeth beach	deuddegfed, y ddeuddegfed twelfth
tywod sand	dymunol pleasant
Y Barri Barry	eang expansive
	i lawr i down to
ffair fair	llwyr complete, entire; thorough
glan, y lan bank, shore	llydan wide
marchnad, y farchnad market	naill ai either
rhodfa promenade	naill ai... neu either... or
ynys island	petai if

swnllyd noisy  
teg fine  
uwchben above

wrth eich bodd in your element  
wrth eu bodd in their element

## Part one: Notes

- 1 Fyddwn i ddim am fyw ar lan y môr achos rydw i'n rhy hoff o Gwmllynfi. *I wouldn't want to live at the seaside because I'm too fond of Cwmllynfi.*
- a am fyw Fyw is a soft mutated form of byw: *to live* (L3, N6a). You have noticed that am can mean different things. Here it has almost the same meaning as eisiau: *to want*, since it conveys intention or desire. The verb-noun which follows undergoes a soft mutation, e.g. Mae Branwen am fod yn actores: *Branwen wants to be an actress*.
- b ar lan y môr: *at the seaside* (lit.: *on the bank (side) of the sea*) Lan is a soft mutated form of glan: *bank, shore* (L2, N4e).
- c o Gwmllynfi (L2, N7c)
- 2 Fodd bynnag, rydw i wrth fy modd yn mynd i Dretwyn. *However, I'm in my element going to Tretwyn.* Dretwyn is a soft mutated form of Tretwyn (L1, N34b). Tretwyn is a fictitious town meaning literally *The town of the sand-dune*.
- 3 Fe fyddech chi wrth eich bodd yno hefyd. *You would be in your element there too.*
- a Fe fyddech chi: *You would be*
- b wrth eich bodd: *in your element* (L9, N8a)
- 4 Mae yno fae eang a thraeth o dywod sy'n felyn fel aur a rhodfa lydan ar lan y môr. *There is an expansive bay there and a sandy beach* (lit.: *beach of sand*) which is yellow like gold and a wide promenade on the sea-shore.
- a Mae yno fae Fae is a soft mutated form of bae: *bay*, since the word which follows yno: *there* undergoes a soft mutation, e.g. Roedd yno lawer: *There were many there*. Fe fydd yno ddwsin: *There will be a dozen there*.
- b a thraeth Thraeth is an aspirate mutated form of traeth (L4, N5d).
- c o dywod Note the soft mutation to tywod: *sand* (L2, N7c).
- d sy'n felyn: *which is yellow* You have seen that sy(dd) can be followed by different elements (L8, N6d). Felyn is a soft mutated form of melyn: *yellow* (L1, N18a).
- e rhodfa lydan Lydan is a soft mutated form of llydan: *wide* (L2, N3b).
- 5 Does dim ffair yno fel yn Y Barri a Phorthcawl, diolch byth. *There's no fair there as in Barry and Porthcawl, thank goodness.*
- a Y Barri (L11, N6c) Barry is a seaside town about ten miles west of Cardiff.
- b a Phorthcawl Phorthcawl is an aspirate mutated form of Porthcawl (L4, N5d). It is a seaside town about twenty five miles west of Cardiff.
- 6 Fe fyddai hen ffair swnllyd yn difetha'r lle'n llwyr. *A noisy old fair would spoil the place entirely.* You have seen that hen: *old* usually precedes nouns (L3, N9c). It can also convey an element of contempt without referring at all to the age of something, e.g. Dyna hen le oer!: *What a cold old place!*

- 7 **Fe fyddwn ni'n mynd toc ar ôl cinio ac efallai y bydd cyfle inni edrych o gwmpas y dref cyn mynd i lawr i'r traeth.** *We'll be going soon after lunch and perhaps (that) there will be an opportunity for us to look around the town before going down to the beach.*  
**efallai y bydd:** *perhaps (that) there will be* You have seen this **y** before (L6, N23c). Here it is used after **efallai:** *perhaps*. **Efallai** cannot be followed directly by a verb. It can be followed by the **fy mod i** etc. pattern when the sentence refers to the present or to the perfect tense. Otherwise **y** is the linking word. **Bydd** is the traditional form of **fe fydd:** *he/she/it/there will be*.
- 8 **Dydy hi ddim yn dref fawr iawn ond fe fydd Dewi a Branwen wrth eu bodd yn y farchnad awyr-agored.** *It isn't a very big town but Dewi and Branwen will be in their element in the open-air market.*
- a **yn dref fawr** **Fawr** is a soft mutated form of **mawr** (L2, N3b).  
 b **wrth eu bodd:** *in their element* (L9, N8a)  
 c **y farchnad** **Farchnad** is a soft mutated form of **marchnad** (L1, N10b).
- 9 **Ar ôl cael cip ar y dref rydyn ni'n bwriadu cael picnic naill ai ar y traeth neu ar ben y clogwyn uwchben y môr.** *After having a glimpse of (lit.: on) the town we intend having a picnic either on the beach or on top of the cliff above the sea.*
- a **naill ai ar y traeth neu** Notice **naill ai...neu:** *either...or*.  
 b **ar ben** **Ben** is a soft mutated form of **pen:** *top* (also, *head*) (L2, N4e).
- 10 **O ben y clogwyn fe fyddwn ni'n gallu gweld Y Penrhyn Du ac Ynys Carfan ar y gorwel os ydy hi'n glir.** *From the top of the cliff we'll be able to see The Black Peninsular and Carfan Island on the horizon – if it's clear.*
- a **O ben** Note the soft mutation of **pen** (L2, N7c).  
 b **Y Penrhyn Du** and **Ynys Carfan** are fictitious places.  
 c **hi'n glir** **Glir** is a soft mutated form of **clir** (L1, N18a).
- 11 **Fe fyddai hi'n ddymunol iawn petai Tom a'r teulu'n gallu gweld Tretywyn ar ddiwrnod teg o wanwyn.** *It would be very pleasant if Tom and the family would be able to (could) see Tretywyn on a fine spring day.*
- a **hi'n ddymunol** **Ddymunol** is a soft mutated form of **dymunol** (L1, N18a).  
 b **petai Tom:** *if Tom* In Welsh we cannot use the word **os** with the conditional forms like **fe fyddwn i**, **fe fyddech chi**, etc. There is a special word to use with each of these conditional forms. **Petai** is the word to use to convey *if he/she/it were*, e.g. **Fe fyddwn i'n prynu'r car petai e'n rhad:** *I would buy the car if it were cheap* (App. 1j and 1n).  
 c **ar ddiwrnod** Note the soft mutation of **diwrnod** (L2, N4e).  
 d **ar ddiwrnod teg o wanwyn:** *on a fine spring day* (lit.: *on a fine day of spring*) Note that **gwanwyn:** *spring* has undergone a soft mutation (L2, N7c).
- 12 **Ond mae rhaid imi baratoi cinio 'nawr.** *But I must prepare lunch now.*  
**rhaid imi baratoi** **Paratoi** has undergone a soft mutation (L6, N10c).

## Part two: Vocabulary

darn piece  
 Ebrill April  
 halen salt  
 llif current  
 nofiwr (nofwyr) swimmer  
 pencampwr champion  
 perygl(-on) danger  
 pryd meal  
 tir mawr mainland  
 toc slice  
 wy egg

barn, y farn opinion  
 brechdan, y frechdan sandwich  
 letysen (letys) lettuce  
 teisen lap, y deisen lap cake  
 ton(-nau), y don wave

amau to doubt  
 boddi to drown  
 cynghori to advise  
 chwerthin am ben to laugh at  
 dibynnu ar to depend on  
 estyn to pass  
 fe fydden nhw they would be  
 fyddet ti? would you? (fam.)  
 fyddet ti ddim you wouldn't (fam.)  
 gofalu to take care  
 gofyn i to ask

## Part two: Notes

Cael picnic *Having a picnic*

- 13 **Estynna'r halen i 'mam, wnei di, Dewi?** *Pass the salt to mother, will you, Dewi?*
- a **Estynna** is the familiar command form of **estyn:** *to pass, to hand* (L4, N42b).  
 b **wnei di:** *will you* This is the question form of the familiar form **fe wnei di:** *you will do*. Note the absence of **fe** in order to turn the statement into a question, cf. **fe fyddi di – fyddi di?:** *will you?*
- 14 **Ac estynnwch doc o fara 'menyn yr un pryd, Dewi, os gwelwch yn dda. Mae'r cig yma'n dyner iawn.** *And pass a slice of bread and butter the same time, Dewi, please. This meat is very tender.*
- a **Estynnwch:** *pass* is the polite command form of **estyn**.  
 b **estynnwch doc:** *pass a slice* **Toc** has undergone a soft mutation to **doc** since it is the object of the short form of the verb **estynnwch** (L5, N21).  
 c **o fara 'menyn** **Bara:** *bread* has undergone a soft mutation (L2, N7c).  
 d **yr un pryd:** *the same time* (lit.: *the one time*) By using the pattern **yr un** we can convey *the same*, e.g. **yr un bachgen:** *the same boy*. Of course,

- if the noun following **un** is feminine then the noun will undergo a soft mutation (L10, N16b), e.g. **yr un ferch**: *the same girl*.
- e **yma'n dyner** Note the soft mutation to **tyner** (L1, N18a).
- 15 **Gymerwch chi domato a wy gyda fe?** *Will you have (lit.: take) a tomato and an egg with it?*
- a **Gymerwch chi**: *Will you take* is the question form of the polite **cymerwch chi**: *you take*, and these forms have come from the verb-noun **cymryd**: *to take*. Note that if the verb-noun begins with the consonant **c**, then question forms will begin with **g**, e.g. **colli**: *to lose*, **gollwch chi?**: *will you lose?*; **canu**: *to sing*, **ganwch chi?**: *will you sing?*
- b **Gymerwch chi domato** **Tomato** has undergone a soft mutation (L5, N21).
- c **a wy** This is how people in South Wales say *and an egg*. People in North Wales say **ac wy** (as in the number **dwy**).
- 16 **Diolch. Dydw i ddim wedi mwynhau pryd mor flasus ers tro.** *Thanks. I haven't enjoyed such a tasty meal (lit.: a meal so tasty) for a while.*
- a **pryd**: *a meal* You have seen that **pryd** can mean **time** (N14d), and also *when*, asking *What time?* (L3, N26b).
- 7 Os dewch chi yma fe welwch chi gofgolofn Hedd Wyn, y bardd-fugail y bu cymaint o sôn amdano. *If you come here you'll see Hedd Wyn's monument, the shepherd-poet of whom there was so much talk (lit.: mention about him).*
- a Hedd Wyn is the pseudonym of the poet Ellis Humphrey Evans (1887–1917), who was a native of Trawsfynydd.
- b bardd-fugail *Bugail: shepherd* has undergone a soft mutation (L3, N12a).
- c y bu cymaint o sôn amdano (L15, N26b)
- 8 Fe fydd y pentrefwyr yn siŵr o'ch cymell i bysgota yn y llyn – y mae brithyll gorau Cymru ynddo. *The villagers will be sure to urge you to fish in the lake – in which are (found) Wales's best trout.*
- a cymell i bysgota *Cymell* is one of the verb-nouns in Welsh which require *i* to link them to another verb-noun following, just like *llwyddo* (Note 5c). *Mynd* and *dod* also require *i* in these circumstances, e.g. *Fe es i i bysgota: I went to fish. Fe ddaethon nhw i bysgota: They came to fish.*
- b Ynddo: *in it* is the *him/it* form of the preposition *yn*: *in*. Here it refers to *llyn*.
- 9 Petaech chi'n dod ato ar hyd y ffordd fawr o gyfeiriad Dolgellau prin y gwelech y pentref gan mor berffaith mae'n ymdoddi i'w gefndir mynyddig. *If you came to it along the main road (lit.: big road) from*

the direction of Dolgellau you would hardly see the village since it blends (so perfectly) into its mountainous background.

- a **prin y gwelech** The linking word **y** is used to link **prin**: *barely, hardly* and the verb.
- b **i'w** (L13, N10a)
- 10 **Ond gadewch inni fynd am dro o gwmpas.** *But let's go for a walk around.* **gadewch inni** **Gadewch** is the polite command form of **gadael** (L15, N13b), (App. 5e).

### Part two: Vocabulary

**bryniau** (pl.) hills  
**Bwrdd Croeso** Tourist Board  
**cyfeiriadau** (pl.) addresses  
**ffolineb** foolishness  
**grisial** crystal  
**llety** (pl.) lodgings  
**lliain** cloth  
**modd** possible (lit.: means)  
**rhaid** necessity  
**Rhyfel Byd Cyntaf** First World War  
**sbwriel** rubbish  
**swyddog** official  
**twrist** (twristiaid) tourist

**awdl** ode  
**ffos(-ydd)** trench  
**galwad, yr alwad** call  
**llaw** hand  
**Penbedw** Birkenhead  
**swyddfa** office

### Ynys Manaw Isle of Man

**anfon** to send  
**cadeirio** to chair  
**gorffwys** to rest  
**lladd** to kill  
**parchu** to respect  
**taenu** to spread  
**ymddiried** to trust  
**ymladd** to fight

**canllath** one hundred yards  
**cyfleus** convenient  
**gwarthus** disgraceful  
**gyda'r nos** in the evening  
**heini** fit  
**hyd** as far as  
**moel** bare; bald  
**ninnau** us  
**tra** while  
**ynof** i in me

### Part two: Notes

**Wrth y gofologfn** *By the monument*

- 11 **le, bugail ar y bryniau moel yma o gwmpas y pentref. Roedd ganddo ddigon o heddwch i feddwl, mae'n siŵr.** *Yes, a shepherd on these bare hills around the village. He had plenty of peace to think, that's for sure* (lit.: *it's sure*).
- 12 **Oedd, ond dywedodd Dewi wrtho i ei fod e ddim yn fardd mawr.** *Yes, but Dewi told me that he wasn't a great* (lit.: *big*) *poet.*
- 13 **Nac oedd, ond mae pob Cymro'n cofio amdano fel bardd "Cadair Ddu Penbedw 1917".** *No, but every Welshman remembers him as the poet of "The Black Chair of Birkenhead 1917".* **cofio amdano** In Welsh we say to remember about a person or thing, and we use the preposition **am** or one of its various forms after **cofio**, e.g. **Cofiwch amdanaf i: Remember me** (App. 14(a) ii).
- 14 **Beth ddigwyddodd felly?** *What happened, then?*  
 Note the soft mutation of **digwyddodd** (L15, N34d).

- 15 **Wel, fe aeth e dros y môr i Ffrainc i ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a thra oedd e yno fe anfonodd e awdl y bu e'n ei chyfansoddi yn y ffosydd i Eisteddfod Genedlaethol Penbedw.** *Well, he went overseas to France to fight in the First World War and while he was there he sent an ode that he'd been composing in the trenches to Birkenhead's National Eisteddfod.*
- a **a thra oedd** **Tra:** *whilst* has undergone an aspirate mutation (L4, N5d). **Tra** is followed by the emphatic form of a verb: **tra oedd** instead of **roedd**. No mutation follows **tra**, e.g. **tra digwyddodd hyn: whilst this happened.** Note that we say **tra bo Dewi/fe/hi** etc., and **tra bôn nhw**, rather than **tra mae/ydy Dewi**, and **tra maen/ydyn nhw**. We can also say **tra bôn ni: whilst we are; tra boch chi: whilst you are.**
- b **Awdl:** *ode* is a long poem in strict metre for which the chair is awarded in the National Eisteddfod.
- c **y bu e'n ei chyfansoddi** (L17, N27d) **Cyfansoddi** has undergone an aspirate mutation after the feminine **ei** since the **ei** refers to **awdl**, which is feminine.
- 16 **Ac fe enillodd e, on'd do fe?** *And he won, didn't he?* **enillodd e** The **nn** in **enill**: *to win* becomes a single **n** when verbs are formed from it.
- 17 **Do, ond yn anffodus fe gafodd e ei ladd ychydig cyn y 'Steddfod.** **Doedd dim cadeirio ond taenwyd lliain du dros y gadair.** *Yes, but unfortunately he was killed a little before the Eisteddfod. There was no chairing but a black cloth was spread over the chair.*
- a **cadeirio:** *to chair* The chairing of the bard is a colourful ceremony at the Eisteddfod.
- b **lliain du:** *black cloth* Thus the reference to the **Cadair Ddu: Black Chair.**
- 18 **Ie, dyna pam mae bugail a'i gi'n dal i sefyll ar stryd fawr y pentref a Chymry'n dal i gofio am fardd fu farw'n ifanc.** *Yes, that's why a shepherd and his dog continue to stand on the main street* (lit.: *big street*) *of the village and Welsh people continue to remember a poet who died young.* **fu farw** or a **fu farw:** *who died* (L16, N12a)

### Swyddfa'r Bwrdd Croeso The Tourist Board Office

- 19 **Wnewch chi 'sgrifennu'r cyfeiriadau yna ar bapur, os gwelwch yn dda?** *Will you write those addresses on paper, please?*
- 20 **Gwnaf, â phleser. Rydw i'n siŵr y bydd y llety yna'n eich taro'n iawn.** *Yes, with pleasure. I'm sure that those lodgings will suit you well.*  
**eich taro** (L17, N27a)
- 21 **Oes modd cael pryd gyda'r nos yn ogystal â gwely a brecwast?** *Is it possible* (lit.: *are there means*) *to have an evening meal* (lit.: *a meal in the evening*) *as well as bed and breakfast?*
- 22 **Oes, mae'n siŵr, ond byddwch yn ofalus wrth fynd at y fferm. Mae'r ffordd braidd yn gul.** *Yes, surely, but be careful as* (you) *go towards the farm. The road is rather narrow.*
- a **wrth fynd:** *as* (you) *go* (lit.: *while going*)
- b **Braidd:** *rather* can be used independently or be linked to an adjective by using **yn**, e.g. **Mae hi'n oer braidd/Mae hi braidd yn oer:** *It's rather cold.*
- 23 **Faint y noson fydd y cwbl?** *How much per night will the lot be?*



- Bydd has changed to fydd. Verbs following faint undergo a soft mutation, since the relative pronoun a (L16, N12a) links faint and the verb.
- 24 O, ddim mwy na thair punt hyd y gwn i. Sawl un ydych chi 'te? Oh, not more than three pounds as far as I know. How many are you then? Sawl is equivalent to faint: how much, how many. Their construction is different. Faint by using o is followed by a plural noun, e.g. Faint o blant oedd yno?: How many children were there? Sawl is followed by a singular noun, e.g. Sawl plentyn oedd yno?
- 25 Bydd angen dwy stafell wely, felly? Two bedrooms will be needed, therefore (lit.: There will be a need of...).
- 26 Bydd, er y byddai'n bosib inni rannu petai rhaid. Yes, although it would be possible for us to share if necessary (lit.: if there were a necessity). The linking word y is used after er when it's followed by future and conditional tenses.
- 27 Gyda llaw, gan eich bod chi wedi mynd i'r fath drafferth, oes rhywbeth i'w dalu? By the way, since you've gone to such (lit.: to the such) bother, is there something to be paid? i'w dalu: to be paid You know that i'w can mean to his, or to her (L13, N10a), and also to their. When i'w is followed by a verb-noun it can convey to be, e.g. Ydy'r ferch i'w gweld?: Is the girl to be seen? Ydy'r bachgen i'w weld?: Is the boy to be seen? Ydy'r mynyddoedd i'w gweld?: Are the mountains to be seen? Talu has undergone a soft mutation since the ei (in 'w) refers to the masculine noun rhywbeth (App. 13(b) 4).
- 28 Dim ond deg ceiniog am yr alwad ffôn. Mae'n rhan o wasanaeth y Bwrdd Croeso. Only ten pence for the telephone call. It's part of the Tourist Board's service.
- Dringo'r Wyddfa Climbing Snowdon**
- 29 Gaf i ddal eich llaw, 'nhad? Mae'r llwybr mor serth. May I hold your hand, Dad? The path is so steep.
- 30 Cei, gelli di ymddiried ynof i, ond fe ddylet fedru dringo'n well na fi gan dy fod yn ifanc. Yes, you can trust me (lit.: in me), but you should climb better than I since you're young.
- a Cei is the way to respond Yes, you can, the you being the familiar form. Cei actually means you shall have/get (L16, N39).
- b ymddiried ynof i: trust me (lit.: in me) Ynof is the me person of the preposition yn: in. Note that we say to trust in a person, e.g. Dydw i ddim yn ymddiried yn John: I don't trust John (App. 14(a) i).
- 31 Faint sy i'w ddringo eto? How much is there to be climbed again?
- a Faint sy: How much is there (also, how many are there)
- b i'w ddringo (Note 27)
- 32 Ryw ganllath ac yna fe allwn ni orffwys. Some one hundred yards and then we can rest. Ryw is a soft mutated form of rhyw: some (L9, N9b). Canllath has undergone a soft mutation (L11, N16b), (App. 16(a) 5).
- 33 Oedd rhaid inni ddringo a'r trên mor gyfleus? Did we have (lit.: Was there a must for us) to climb with (lit.: and) the train so convenient?
- 34 Ffolineb fyddai talu tair punt yr un i ddod ar y trên a ninnau'n ddigon heini i ddringo. It would be foolishness to pay three pounds each to come on the train and (with) us fit enough to climb.

- a a ninnau Ninnau is the correct way to use ni after a, cf. a minnau (App. 13(a) 2).
- b i ddringo The adjective heini and the verb-noun dringo are linked by i, which is always used in this construction, e.g. Roedd hi'n rhy hen i gael dol: She was too old to have a doll. Ydy hi'n ddrigon sych i chwarae?: Is it dry enough to play?
- 35 Popeth yn iawn. Dyna ni. Ond edrychwch ar y sbwriel. Mae'n ofnadwy, on'd ydy e? Everything's all right. There we are. But look at the rubbish. It's terrible, isn't it?
- 36 Ydy, mae'n warthus bod twristiaid ddim yn parchu'r lle. Ond edrychwch ar yr olygfa. Yes, it's disgraceful that tourists don't respect the place. But look at the view. Twristiaid is frequently used for tourists, although the word ymwelwyr is well-established.
- 37 Dyna Ynys Manaw yn y pellter. That's (the) Isle of Man in the distance.
- 38 Mae hi mor glir â grisial heddiw. It's as clear as crystal today.

## Gwers pump ar hugain

## Yr Eisteddfod

## Lesson twenty five

## The Eisteddfod

## Part one: Vocabulary

côr (corau) choir  
 corau meibion (pl.) male voice  
 choirs  
 Cymry ar Wasgar Welsh Exiles  
 cyn-fyfyrrwyr (pl.) former students  
 dydd Gwener Friday  
 dydd Iau Thursday  
 dydd Llun Monday  
 pafiliwn pavilion  
 cystadlaethau (pl.) competitions  
 dawnsfeydd (pl.) dances  
 nos Fawrth Tuesday night

nos Fercher Wednesday night  
 nos Wener Friday night  
 nosweithiau (pl.) nights  
 rhaglen programme  
 coronni to crown  
 fuon ni (ddim) we haven't been  
 eleni this year  
 pumed ar hugain, y bumed ar hugain (f) twenty fifth  
 pump ar hugain twenty five  
 pwy a wyr who knows

## Part one: Notes

- 1 Mae cymaint i'w wneud fe fydd rhaid inni ddewis yn ofalus o'r rhaglen yma. There's so much to be done we'll have to choose carefully from this programme. i'w wneud: to be done (L24, N27) Gwneud has undergone a soft mutation since it follows the masculine 'w.

- 2 Ar ddydd Llun mae cyn-fyfyrrwyr y Brifysgol yn cwrrd. Fe af i yno. *On Monday the former students of the University are meeting. I shall go there.*
- a cyn-fyfyrrwyr: former or past students Myfyrrwyr has undergone a soft mutation since it is the second element in a word (L3, N12a). Cyn before a noun conveys former, past or ex – and it is followed by a soft mutation, e.g. cyn-brifathro: former headmaster.
- b Fe af i is the I form of the future tense of mynd.
- 3 Effallai y gwelaf i rai hen gyfeillion. *Perhaps I'll see some old friends.*
- 4 Fe welwn ni'r coroni ar ddydd Mawrth a gobeithio y gallwn ni weld y dramâu y bu cymaint o sôn amdanyn nhw ar nos Fawrth a nos Wener. *We'll see the crowning on Tuesday and (we) hope that we can see the plays that there was so much talk about (them) on Tuesday night and Friday night.*
- a coroni: to crown Crowning the poet is the highlight of the Eisteddfod proceedings on the Tuesday.
- b gobeithio y gallwn ni When gobeithio: to hope (or I or we hope) is followed by a verb the linking y is used (cf. prin, L24, N9a).
- c y bu cymaint o sôn amdanyn nhw (L15, N26b)
- d nos Fawrth a nos Wener Note the soft mutation after nos.
- 5 Fe awn ni i wrando ar y cystadlaethau yn y Pafiliwn ddydd Mercher. *We'll go and (lit.: to) listen to the competitions in the Pavilion on Wednesday.*
- a Fe awn ni i wrando (L24, N8a) Fe awn ni is the we form of the future tense of mynd (App. 3(a) 1).
- b ddydd Mercher Note the soft mutation of dydd. The word ar can be omitted in front of days of the week (L16, N22c).
- 6 Ac fe arhoswn ni yno ar brynhawn dydd Iau i weld y cadeirio. *And we'll stay there (on) Thursday afternoon to see the chairing.*  
ar brynhawn dydd Iau Note the position of prynhawn: afternoon in that it precedes dydd Iau, cf. bore dydd Mawrth: Tuesday morning.
- 7 Fe gawn ni gyfle i fod ar y llwyfan ddydd Gwener gyda'r Cymry ar Wasgar. *We'll have an opportunity to be on the stage on Friday with the Welsh Exiles (lit.: the scattered or dispersed Welshpeople).*
- 8 I orffen yr wythnos fe glywn y corau meibion ar ddydd Sadwrn. *To end the week we'll hear the male voice choirs (lit.: sons' choirs) on Saturday.* fe glywn There is only one w in the we form of the future tense of clywed.
- 9 Fe aiff Dewi a Branwen i rai o'r nosweithiau llawen a'r dawnseydd. *Dewi and Branwen will go to some of the nosweithiau llawen and the dances.*
- a Fe aiff is the he/she/it form of the future tense of mynd (App. 3(a) 1).
- b Nosweithiau Llawen is the plural of Noson Lawen: a Merry Evening.
- 10 Allaf i ddim mynd i bopeth ond chollaf i ddim llawer yn ystod yr wythnos, gallwch chi fentro. *I can't go to everything but I shan't miss much during the week, you can be assured (lit.: you can venture).*
- 11 Ac am Dewi a Branwen, chollan nhw ddim llawer 'chwaith. *And regarding (lit.: about) Dewi and Branwen, they shan't miss much either.*  
chollan nhw The ending an denotes the they person of a regular future tense verb (App. 2j).

- 12 Pwy enilliff y gadair eleni, tybed? *Who'll win the chair this year, I wonder?*
- a Enilliff means he/she/it will win. The ending iff denotes the he/she/it person of a regular future tense verb.
- b Eleni: this year is considered more correct than y flwyddyn yma.
- 13 Aiff y goron i'r de neu i'r gogledd? *Will the crown go to the South or to the North?*
- 14 Pwy a wŷr? Ond fe fydd hi'n wythnos ddiddorol i ni i gyd gan na fuon ni yn yr Eisteddfod ers tro. *Who knows? But it will be an interesting week for us all since we haven't been to (lit.: in) the Eisteddfod for a while.*
- a Pwy a wŷr?: Who knows? is a literary saying but it's often heard in the spoken language, as well as the version Pwy wŷr? Pwy sy'n gwybod? is the popular spoken form, especially when it's part of a longer question (App. 3(e) 1).
- b gan na fuon ni Gan meaning since is followed by na (or nad in front of a vowel) to convey the negative form of verbs, e.g. gan na chlywais i: since I didn't hear; gan na fyddaf i'n mynd: since I won't be going.  
Buon ni is the we form of fe fues i (L17, N2a), and it has undergone a soft mutation after na (L16, N16b).

## Part two: Vocabulary

ambiwlans ambulance  
beic modur motor bike  
gwaed blood  
gwerthwr (gwerthwyr) seller  
gwrthdrawiad collision  
heddlu police  
help help

chwaer sister  
damwain, y ddamwain accident  
ffedog apron  
milltir, y filltir mile  
rhes row

anafu to injure  
camsynied to mistake

gorwedd to lie down  
gwrthdaro to collide  
tynnu to take; to pull  
ymddangos to appear

brenhinol royal  
cyn gynted â (ag) as soon as  
difrifol serious  
'nôl to fetch  
oddi amdanaf from about me  
os oes modd if possible  
pum deg fifty  
syth immediately  
taladwy payable  
ynddi (f) in it, in her  
ys gwn i? I wonder?

## Part two: Notes

Prynu tocynnau Buying tickets

- 15 Fe gymeraf i ddau docyn i ddrama nos Fercher ac un i'r Pafiliwn ddydd Iau. Oes rhai gennych chi? *I'll take two tickets for Wednesday night's play and one for the Pavilion on Thursday. Do you have some?*
- 16 Oes. Dyna'r cwbl? *Yes. Is that the lot?*
- 17 Oes. Gymerwch chi rai o res C? *Yes. Will you take some from row C?*  
res C Note how we say the letter c (ec) when it stands on its own.

- 18 **Gwnaf, dau os gwelwch yn dda, tua'r canol os oes modd.** *Yes, two please, towards the middle if possible (lit.: if there are means).*
- 19 **Ac fe ddywedoch chi rywbeth am ddrama, on'd do fe?** *And you said something about a play, didn't you?*
- 20 **Do, fe hoffwn i weld drama Saunders Lewis ar nos Fawrth.** *Yes, I would like to see Saunders Lewis's play on Tuesday night.*
- 21 **Chollwn i moni am y byd 'chwaith gan fod Jonah Jones yn actio ynddi. Sawl tocyn?** *I wouldn't miss it for the world either since Jonah Jones is acting in it. How many tickets?*
- a **Moni** is the *her* (or *it*) form of **mo** (App. 14(a) ii).
- b **Ynddi** is the *her* form of **yn**: *in*.
- c **Sawl tocyn** (L24, N24)
- 22 **Gwnawn, wrth gwrs. Gwnewch hi'n daladwy i Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru.** *Yes, of course. Make it payable to The Royal National Eisteddfod of Wales.*
- a **Gwnawn**: *we will/shall make* or *do* is the *we* form of the future tense of **gwneud**. However, in response to a question or statement which uses a future verb form (**gymerwch chi**) it simply means *yes (we will do)*. The ticket seller uses the plural **gwnawn** rather than the singular **gwnaf** since he's responding on behalf of the Eisteddfod officials. **Gwnawn** can also mean *I would make* or *do* (App. 20(a) 2).
- b **Gwnewch** is the polite command of **gwneud**. It also happens to be the polite *you* form of the future.
- 23 **A faint sy arnaf i i chi i gyd?** *And how much in all do I owe you?*
- 24 **Naw punt a phum deg ceiniog, os gwelwch yn dda.** *Nine pounds and fifty pence, please.*

#### Damwain Accident

- 25 **Gafodd 'nhad docynnau, ys gwn i?** *Did father get tickets, I wonder?*  
**Ys gwn i**: *I wonder* is pronounced 'sgwn i, and it's a saying that can also come at the beginning of a question, e.g. **Ys gwn i gafodd 'nhad docynnau?**
- 26 **Er bod yr Eisteddfod yn boblogaidd werthan nhw mo'r tocynnau i gyd cyn diwedd Gorffennaf.** *Although the Eisteddfod is popular they won't sell all the tickets before the end of July.*
- 27 **Edrycha, Dewi. Beth sy'n bod yma? (Stopio)** *Look, Dewi. What's wrong here? (Stopping)*
- 28 **Damwain. Mae'n edrych fel petai'r car yna newydd wrthdaro â beic modur. Ac mae gyrrwr y beic modur yn gorwedd ar y llawr yn waed i gyd.** *An accident. It looks as if that car has just collided with a motor bike. And the rider (lit.: driver) of the motor bike is lying on the ground with blood all over (him).*
- a Note the slightly different pronunciation of **damwain** here and in the title. This is a legitimate and common variation.
- b **newydd wrthdaro** **Newydd** usually means *new*. It can precede a verb-noun to convey *newly* or *just*, e.g. **newydd agor**: *just open*.
- 29 **Beth wnawn ni?** *What shall we do?* **Wnawn ni** is a soft mutated form of **gwnawn ni** (L15, N34d), (App. 3(c) 1).
- 30 **Fe yrraf i ymlaen i 'nôl help.** *I'll drive ahead to fetch help.*  
**'Nôl** (**yn ôl**): *back*, preceded by **i** means *to fetch*. **I** is only used when

actual movement is involved, e.g. **Rydw i'n mynd i 'nôl y car**: *I'm going to fetch the car*. But: **Rydw i'n meddwl 'nôl y car**: *I'm thinking of fetching the car*.

- 31 **Ac fe af i at y bachgen ifanc yna, druan ohono. Ac mae'n ymddangos bod rhywbeth yn bod ar yrrwr y car hefyd, os nad ydw i'n camsynied. And I'll go to that young boy, poor thing. And it appears that something is wrong with (lit.: on) the driver of the car too, if I'm not mistaken.** **os nad ydw i** (L24, N3a)
- Ffonio am help** *Telephoning for help*
- 32 **Mae damwain tua milltir i lawr yr heol.** *There's an accident about a mile down the road.*
- 33 **Oes rhywun wedi ei anafu'n ddifrifol?** *Has someone been seriously injured?* **wedi ei anafu** Note the omission of **cael** (L20, N37c).
- 34 **Rydw i'n ofni bod.** *I'm afraid so (lit.: that).*
- 35 **Hylo! ... Yr heddlu, os gwelwch yn dda... Mae damwain wedi digwydd hanner ffordd rhwng Caerlan a Brynsiriol... Hello! ... The police, please... An accident has occurred half way between Caerlan and Brynsiriol... Caerlan and Brynsiriol are fictitious villages.**
- 36 **Gwrthdrawiad rhwng beic modur a char... Anfonwch ambiwlans ar unwaith... A collision between a motor bike and a car... Send an ambulance immediately...**
- 37 **Ddaw rhywun cyn bo hir?** *Will someone come before long?*  
(**Fe**) **ddaw** is the *he/she/it* form of the future tense of **dod**.
- 38 **Fe ddaw'r heddlu cyn gynted ag y bydd modd.** *The police will come as soon as possible.*
- a **cyn gynted ag** **Cynted** is the equative degree form of **buan**: *soon* and **cynnar**: *early*. These two adjectives form their comparisons in an irregular manner. You will note that the pattern is familiar to you (L23, N9b). **Cynted** has changed to **gynted** since when adjectives are compared **cyn** is followed by a soft mutation (App. 11c). Words beginning with **ll** or **rh** do not mutate after **cyn**.
- b **y bydd modd**: *lit.: there will be means* You will also hear **y bo modd**.
- 39 **Dôn, siŵr.** *Yes, sure.* **Dôn** means *they will come*, but here it is an affirmative response meaning *yes (they will come)*. The future tense forms of **dod**: *to come* (App. 3(b) 1) can be used to respond to questions or statements which include future tense forms of **dod**. As you know future forms of **gwneud** can also be used (L20, N41), (App. 20(a) 2).
- 40 **Fe af i'nôl yno'n syth gan fod fy chwaer yno.** *I'll go back there immediately since my sister's there.* **yn syth** (L4, N16)
- 41 **Arhoswch! Fe dynnaf i fy ffedog oddi amdanaf i ac fe ddof i gyda chi rhag ofn y gallaf i fod o help.** *Wait! I'll take off my apron and I'll come with you in case I can be of help.*
- a **Fe dynnaf i fy ffedog oddi amdanaf i** literally means *I'll pull my apron from about me*. We say *to pull clothes from about (one)*.
- b **Oddi amdanaf i** is the *me* person of **oddi am**: *from about* (App. 14(a) 2).
- c **Fe ddof i** is the *I* form of the future tense of **dod**.
- d **rhag ofn y gallaf i** You have seen **rhag ofn** being followed by the preposition **i**, and also by the **fy mod i** pattern (L21, N28b). The linking word **y** is used when **rhag ofn** is followed by a short form verb.

## Part one: Vocabulary

band(-iau) band	adnabod to recognize
coffi coffee	
Duw God	cyhyd for so long; as long
glasaid glassful	chwech ar hugain twenty six
	chweched ar hugain twenty sixth
cymdeithasau (pl.) societies	mwy na thebyg more than likely
lên literary; literature	pres brass
pabell, y babell tent	rhywle somewhere

## Part one: Notes

- 1 Chredwch chi ddim faint o bobl sy'n crwydro'r maes yma er taw ond bore dydd Llun ydy hi. *You won't believe how many people are wandering (around) this field although it's only Monday morning.*
  - a faint o bobl (L24, N24)
  - b crwydro'r maes Note that we can say *to wander a field*, e.g. *crwydro Cymru: wandering (around) Wales.*
  - c Er taw ond or Er taw dim ond literally means *although that only*. *Taw: that is preceded here by er: although*. It can also be preceded by *os: if; gan, achos, oherwydd, am: because, and ond: but.*
- 2 Welaf i mo Dewi er ei fod e o gwmpas yn rhywle. *I don't see Dewi although he's around somewhere (lit.: in some place).* Welaf i mo: *I don't see* is another example of a future tense verb form conveying the present tense.
- 3 Rydw i'n meddwl yr aiff e i grwydro'r maes gyntaf ond rydw i'n siŵr y byddwn ni'n cwrdd â'n gilydd rywbryd. *I think that he'll go and (lit.: to) wander (around) the field first but I'm sure that we'll be meeting one another sometime.*
  - a Gyntaf has undergone a soft mutation since although the connecting *yn* has been omitted the soft mutation remains.
  - b cwrdd â'n gilydd (L21, N8)
- 4 Fe welaf i rywun rydw i'n ei 'nabod cyn bo hir yn fwy na thebyg. *I'll see someone whom I know before long more than likely.* yr ydw i'n ei 'nabod (L17, N27d)
- 5 Ond tybed 'nabyddiff pobl fi gan fy mod i ddim wedi bod yng Nghymru cyhyd. *But I wonder (if) people will recognize me since I haven't been in Wales for so long.* In spoken Welsh the *ad* in *adnabod* is dropped, hence 'nabyddiff.
- 6 Cyn dechrau crwydro fe yfaf i lasaid o laeth gan ei bod hi mor boeth. *Before starting to wander around I'll drink a glass (lit.: glassful) of milk since it's so hot.*
  - a Note that *I shall drink* is *fe yfaf i* (the stem being *yf*).
  - b Lasaid is a soft mutated form of *glasaid* (L11, N33c).

- 7 Dydy 'mam a 'nhad ddim yma eto ond fe ddôn nhw toc. *Mother and father aren't here yet but they'll come soon.* Fe ddôn nhw is the *they* form of the future tense of *dod* (App. 3(b) 1).
- 8 Â'n nhw ddim i'r Pafiliwn yn syth. *They won't go to the Pavilion immediately.*
- 9 Aiff 'nhad i'r Babell Lên a 'mam i Babell y Cymdeithasau. *Father will go to the Literary (lit.: Literature) Tent and mother to the Societies Tent.*
- 10 Yn ôl y trefniadau wnaethon ni fe gwrrddwn ni am un ar ddeg o'r gloch ac fe awn ni i gyd i un o'r banciau am goffi. *According to the arrangements (that) we made we shall meet at eleven o'clock and we'll all go to one of the banks for coffee.*
  - a Wnaethon ni is a soft mutated form of *gwnaethon ni: we made, did* (L16, N12a).
  - b Many of the leading banks are represented on the Eisteddfod field and will sometimes offer customers a cup of coffee.
- 11 Pwy gaiff ei goroni, tybed? Merch efallai gan taw dim ond dwy sy wedi ennill y goron erioed. *Who will be crowned, I wonder? A girl perhaps since only two have ever won the crown.*
  - a Pwy gaiff Caiff: *he/she/it will have or get*, has changed to *gaiff*, since verbs following *pwyl*: *who* always undergo a soft mutation.
  - b Pwy gaiff ei goroni This is one method of expressing an impersonal action in the future tense. Here a future tense form of *cael* (*caiff*) is followed by a pronoun (*ei*). This is then followed by a verb-noun which denotes which action will be undertaken (*goroni*). Note that *caiff* is not translated into English at all, e.g. *Fe gaiff John ei ganmol: John will be praised; Fe gaf i fy ngalw: I shall be called* (App. 3(d) 1).
- 12 Cyn bo hir fe ddechreuiff y bandiau pres ac fe fydd tipyn o sŵn yma wedyn. *Before long the brass bands will start and then there'll be a bit of noise here.* fe ddechreuiff: *he/she/it will start* Note how the letters *au* in *dechrau: to start* change to *eu* when verbs are formed.

## Part two: Vocabulary

archdderwydd archdruid	traed (pl.) feet
arweinydd compère; leader,	ysgol feithrin (ysgolion meithrin)
conductor	nursery school
cadeirydd chairman	
gosteg silence	cynllunio to design, to plan
gŵr bonheddig gentleman	
llys court	bonheddig noble
mudiad movement	draw over; yonder
	Duw a'n gwaredo God save us
arddangosfa exhibition	dyn a wŷr goodness knows
celf arts	faint o'r gloch? what time?
crefft crafts	hirwyntog long-winded
ffilm film	lleill others
pebyll (pl.) tents	lliwgar colourful
seremoni ceremony	naw wfft blow
sir county	prydlon prompt

## Part two: Notes

Crwydro'r Maes *Wandering (around) the Field*

- 13 Arhosiff dy fam yn yr arddangosfa Gelf a Chrefft ac fe awn ni i grwydro. *Your mother will stay in the Arts and Crafts exhibition and we'll go wandering around (lit.: to wander).*
- 14 O'r gorau. Ble dechreuw'n ni? *Very well. Where shall we start?*
- 15 Beth am gerdded draw i gyfeiriad Y Theatr Fach? *What about walking over (lit.: yonder) in the direction of The Little Theatre?*
- 16 Welwn ni rywbeth yno 'nawr? *Shall we see something there now?*
- 17 Gwnawn. Maen nhw'n dangos ffilm Gymraeg newydd y bydd yn werth ei gweld am hanner awr wedi un ar ddeg. *Yes. They're showing a new Welsh film that will be worth seeing at half past eleven.*  
y bydd yn werth ei gweld (L17, N27d)
- 18 Fe fwynheua i honna. *I shall enjoy that.* Note that the stem of mwynhau: *to enjoy* is mwynheu, cf. dechrau (N12).
- 19 Fe ddoi di i 'nabod y maes cyn diwedd yr wythnos. *You will get (lit.: come) to know the field before the end of the week.*  
Fe ddoi di is the familiar *you* form of the future tense of *dod*.
- 20 Wyddoch chi beth ydy'r babell liwgar yna y mae llawer o blant yn sefyll o'i blaen hi? *Do you know what that colourful tent that many children are standing in front of is?*
- 21 Pabell y Mudiad Ysgolion Meithrin. *The tent of the Nursery Schools Movement.*
- 22 Mae hi'n dra gwahanol i'r lleill. *It's quite different from (lit.: to) the others.*  
a *Dra* is a soft mutation form of *tra* meaning *extremely, very* or *quite*. It's followed normally by an aspirate mutation, cf. *tra*: *while* (L24, N15a).  
b *Lleill* meaning *other ones* is the plural form of *llall*: *other*. *Llall* stands on its own and doesn't describe a noun, e.g. *Ble mae'r llall?: Where is the other one?; Ble mae'r ferch arall?: Where is the other girl?* In other words *llall* is a pronoun and *arall* an adjective.
- 23 Ydy, ond mae'r rhan fwyaf o'r pebyll wedi eu cynllunio'n ofalus. *Yes, but most of the tents have been designed carefully.*  
a *mae'r rhan fwyaf* Note that we say *the most part*.  
b *wedi eu* (L20, N37c)
- Trefnu oed *Arranging a date*
- 24 Ddoi di i'r ddawns werin gyda fi heno? *Will you come to the folk dance with me tonight?*
- 25 Gwnaf, ond faint o'r gloch a ble? *Yes, but what time and where?*  
*Faint o'r gloch* literally means *how much of the clock*, and it is one of the patterns used when we want to ask the time. *Faint o'r gloch ydy hi?: What's the time?* It is followed by the emphatic form of the verb (App. 17d).
- 26 Yn Ysgol y Foel am hanner awr wedi deg. *In Ysgol y Foel at half past ten.* *Ysgol y Foel* is a fictitious school.

- 27 A phryd gorffenniff hi? *And when will it end?*
- 28 Dyn a wŷr. Does neb yn edrych ar y cloc wythnos yr Eisteddfod. *Goodness knows. No one looks at the clock (in) Eisteddfod week.*  
Dyn a wŷr: lit.: *man knows* is of the same construction as *Pwy a wŷr* (L25, N14a).
- 29 Ond bydd yn brydlon. Arhosaf i ddim amdanat ti os wyt ti'n hwyr, cofia! *But be prompt. I shan't wait for you if you are late, remember!*  
Amdanat ti is the familiar *you* form of *am*: *about*.
- 30 Naw wfft i'r fath ŵr bonheddig! *Blow (to) such a gentleman!*  
a *Naw wfft* conveys contempt and it means *blow*, or *for shame*. People also say *wfft*.  
b *i'r fath ŵr* (L15, N9)
- 31 Fe wisgaf i fy ffrog goch newydd welaist ti moni eto. *I shall wear my new red dress that you haven't seen yet.* *welaist ti moni* (L16, N16b)
- 32 'Nabyddaf i monoch chi, Miss Jones. *I won't recognize you, Miss Jones.*  
*Monoch chi* is the polite *you* form of *mo* (L16, N16c), (App. 14(a) ii).

Yn y Pafiliwn *In the Pavilion*

- 33 Ie. Fe ydy Syr Elwyn Tomos, Cadeirydd Llys yr Eisteddfod. *Yes. He is Sir Elwyn Tomos, the Chairman of the Eisteddfod Court.*
- 34 Dyna'r dyn y siaradodd 'nhad ag e y bore yma ynglŷn â seremoni'r Cymry ar Wasgar. *That's the man that father talked with this morning regarding the Welsh Exiles ceremony.* *y siaradodd 'nhad ag e* (L15, N26b)
- 35 Fe ydy Llywydd y Dydd heddiw? *Is he the President of the Day today?* The tone of voice turns the statement into a question.
- 36 Nage, Mr. Gwyn Williams, Aelod Seneddol y sir sy'n mynd i siarad. *No, it's Mr. Gwyn Williams, the Member of Parliament for the county who's going to speak.*
- 37 Ie. Fe ofynniff yr arweinydd am osteg mewn munud ac fe ddechreuiff yr araith wedyn. *Yes. The compère will ask for silence in a minute and the speech will then begin.*  
a *Arweinydd*: *compère* also means *leader* and *conductor*.  
b *Gosteg* is the word used to ask for silence at official functions.
- 38 Pwy gyflwyniff y Llywydd – y Cadeirydd neu'r Archdderwydd? *Who will introduce the President – the Chairman or the Archdruid?*  
*Pwy gyflwyniff* Note how *cyflwyniff* has undergone a soft mutation (Note 11a).
- 39 Dyna fe ar ei draed 'nawr. *There he is on his feet now.*
- 40 Duw a'n gwaredo ni rhag araith hirwyntog! *God save us from a long-winded speech!* *Duw a'n gwaredo ni (rhag)*: *God save us (from)* has a literary pattern to it but it is often used in speech. *Gwaredo*, from the verb-noun *gwaredu*: *to save, to deliver*, is followed by the preposition *rhag*: *from*, which indicates what the person wants to be saved from.

## Part one: Vocabulary

dant (dannedd) tooth  
deintydd dentist  
meddyliau (pl.) thoughts  
oedran age  
reis rice

ffwrn oven

bwrw'r Sul to spend the weekend  
dodi to lay (the table)  
gorfod to be obliged to, to have to

## Part one: Notes

- 1 Fe daclusaf i'r gegin a pharatoi cinio cyn mynd at y deintydd. *I'll tidy the kitchen and prepare lunch before going to the dentist.* mynd at y deintydd At can mean towards. It also means to (a person), e.g. Roeddwn i'n mynd at Gaerdydd: *I was going towards Cardiff*; Roeddwn i'n mynd i Gaerdydd: *I was going to Cardiff*; Fe es i at y swyddog: *I went to the official.*
- 2 Dyna anlwc, yn gorfod mynd at y deintydd heddiw o bob diwrnod a'r rheina'n dod, yntê? *There's bad luck, having to go to the dentist today of all (lit.: every) days and (with) those coming, isn't it?*
- 3 Ond dyna fe, fe ddywediff Williams y deintydd fy mod i'n lwcus bod dannedd gen i o gwbl o ystyried fy oedran. *But there it is, Williams the dentist will say that I'm lucky that I have teeth at all considering my age.* Oedran: age also has another form – oed (L1, N17b).
- 4 Weithiau rydw i'n tybio y byddai'n well bod hebddyn nhw. *Sometimes I think it would be better to be without them.*
- 5 Beth bynnag, does dim amser gen i i hel meddyliau gan fod gwaith i'w wneud. *However, I haven't got time to have idle thoughts since there's work to be done.* Hel meddyliau literally means to gather thoughts.
- 6 Pryd daw Tom a'r teulu? Tua hanner dydd, sbo. *When will Tom and the family come? About midday, I suppose.* hanner dydd: midday (lit.: half day) Note hanner nos or ganol nos: midnight.
- 7 Ddôn nhw i gyd? Efallai yr aiff Dewi at ei ffrindiau yn Aber er ei bod hi'n wyliau yn y Coleg 'nawr. *Will they all come? Perhaps Dewi will go to his friends in Aber although it's vacation time (lit.: holidays) at the College now.*
- 8 Gobeithio ddôn nhw ddim hebdo fe. *(I) hope they won't come without him.* Gobeithio ddôn nhw ddim (L18, N27)
- 9 Ond ysgrifenniff e ataf i cyn dechrau'r tymor sbo yn gofyn am gael dod

hel to gather  
hel meddyliau to have idle thoughts  
tacluso to tidy up  
tybio to think

at to (a person)  
hanner dydd midday  
rhyngoch chi between you  
saith ar hugain twenty seven  
seithfed ar hugain twenty seventh  
ychwanegol additional

i fwrw'r Sul gyda fi. *But he'll write to me before the beginning of term I suppose asking to (lit.: for) come to spend the weekend with me.*

- a am gael dod You will recall that cael: to have, get can be used to seek and grant permission (L16, N39).
- b i fwrw'r Sul We say bwrw'r Sul: to spend the weekend (lit.: to strike the Sunday).
- 10 Rhyngoch chi a fi, rydw i wrth fy modd pan ddaw e – gwaith ychwanegol neu beidio. *Between you and me, I'm delighted when he comes – additional work or not.* Rhyngoch chi is the polite you form of rhwng: between (App. 14(a) i).
- 11 Fe osodaf i'r ford yn barod ac fe ddodaf i'r pwddin reis wnes i gynnu yn y ffwrn rhag ofn y byddaf i'n hwy'r yn dod adref. *I'll lay the table ready and I'll put the rice pudding that I made just now in the oven in case I'm late coming home.*
- a i'r ford Bord is an alternative to bwrdd: table, used in South Wales.
- b wnes i (L16, N12a) Gwnes i is the I form of the past tense of gwneud.
- c Ffwrn: oven is confined to South Wales; popty is used in North Wales.

## Part two: Vocabulary

perthynas relation  
sothach trash  
tynnwr lluniau photographer

Abertawe Swansea  
awyren aeroplane  
fen van

fe fuest ti you have been  
sicrhau to secure; to ensure

drosot ti on your behalf (fam.)  
gobeithiol hopeful  
hen bryd high time  
llwyddiannus successful  
o dipyn by far, considerably  
ohonof i of me  
ohonot ti of you (fam.)  
safonol quality; standard  
teithiol mobile  
wrthyn nhw lit.: to them

## Part two: Notes

Y Llyfrgell Deithiol *The Mobile Library*

- 12 Beth ydy'r fen yna sy wrth y drws? *What's that van (which is) by the door?*
- 13 O, dyna'r llyfrgell deithiol. Wrth gwrs, mae'n ddydd Mercher, ac mae'n galw yma bob yn ail wythnos. Wn i ddim beth wnawn i hebddi. Dewch i'w gweld hi. *Oh, that's the mobile library. Of course, it's Wednesday, and it calls here every other week. I don't know what I would do without it. Come and (lit.: to) see it.*
- a bob yn ail wythnos Pob has undergone a soft mutation (L7, N5b). The idiom bob yn ail (lit.: every second) precedes singular nouns, which undergo a soft mutation after ail, e.g. bob yn ail fachgen: every other boy.
- b beth wnawn i Gwnawn i has undergone a soft mutation (L15, N34d). This is the I form of the conditional tense of gwneud.
- 14 Sawl llyfr rydych chi eisiau ei fenthyg heddiw? *How many books do you want to borrow (lit.: you want its loan) today?* eisiau ei fenthyg The singular ei (and not the plural eu) is used since it refers to the singular noun llyfr.

- 15 **Arhoswch funud. Fyddai gwahaniaeth gennych petai perthynas i mi o Batagonia yn gweld eich fen?** *Wait a minute. Would you mind (lit.: Would it be a difference with you) if a relation of mine (lit.: to me) from Patagonia saw (lit.: would see) your van?*
- a **Gwahaniaeth:** *mind* (lit.: *difference*) is used in conjunction with a third person singular verb and the preposition **gan**, e.g. **Does dim gwahaniaeth gen i: I don't mind; Mae gwahaniaeth ganddi hi: She does mind.**
- b **perthynas i mi** Note that we say *relation to* (someone).
- 16 **O Batagonia, efe? Caiff, wrth gwrs, â chroeso.** *From Patagonia, is it? Yes, of course, with pleasure.* **Caiff** is the *yes* response, meaning *he/she/it may, can*, cf. **Cewch** (L23, N18).
- 17 **Mae'n well o dipyn na'r hen lyfrgell oedd yn y pentref 'slawer dydd.** *It's better by far than the old library which was in the village a long time ago.* **Mae'n well o dipyn** You have seen the expression **tipyn o** (L20, N27). **O dipyn** follows the comparative and superlative form of the adjective and means *by far* or *considerably*, e.g. **yn waeth o dipyn:** *considerably worse*; **yn llai o dipyn:** *considerably less*; **y gorau o dipyn:** *the best by far*; **y mwyaf o dipyn:** *the biggest by far*.
- 18 **Pan ddywedaf i wrthyn nhw yn Nhrelew chredan nhw mono i. Llyfrau Cymraeg yn dod i'r drws, ac yn dod yn gyson.** *When I tell them in Trelew they won't believe me. Welsh books coming to the door, and coming regularly.*
- a **Wrthyn nhw** is the *them* person of **wrth** (L13, N32a).
- b **Mono i** is the *me* person of **mo** (L16, N16c).
- 19 **Rydw i'n gallu ymddiried ynddo fe i fod yma bob dydd Mercher am ddau o'r gloch â stoc o lyfrau safonol ac nid y sothach welwch chi yn siopau'r dref.** *I can trust him to be here every Wednesday at two o'clock with a stock of quality (lit.: standard) books and not the trash that you see in the town shops.*
- a **Ymddiried ynddo fe** Note that we say **ymddiried yn:** *to trust in* (a person) (App. 14d).
- b **welwch chi:** (*that*) *you see* (L16, N12a) This is another example of a future form verb conveying a present tense meaning.

#### Llun yn 'Y Cymro' *Picture in 'Y Cymro'*

- 20 **Chredi di ddim beth sy yn 'Y Cymro', Branwen.** *You won't believe what's in 'Y Cymro', Branwen.* **Chredi di ddim** is a further example of a future form verb conveying a present tense meaning.
- 21 **Dy lun di – llun ohonot ti'n dawnsio mewn disgo adeg y 'Steddfod.** *Your photo – a photo of you dancing in a disco at the time of the Eisteddfod.* **Ohonot ti** is the familiar *you* form of **o:** *of*.
- 22 **Gadewch i fi ei weld e. O, dyna lun da ohonof i, os caf i ddweud.** *Let me see it. Oh, that's a good photo of me, if I may say (so).*
- a **Gadewch i fi:** *Let me* (L15, N13b), (App. 5e)
- b **Ohonof i** is the *me* person of **o:** *of* (App. 14(a) i).
- 23 **Os na ddywedi di ddywediff neb arall drosot ti.** *If you won't say (it) no one else will say (it) for you.*
- a **Os na ddywedi di** (L24, N3a)
- b **Drosot ti** is the familiar *you* form of **dros:** *over, instead of, for* (App. 14(a) i).

- 24 **Pen pw ydy hwn yng nghanol y llun? Un Dewi?** *Whose head is this in the middle of the picture? Dewi's (lit.: Dewi's one)?*
- 25 **Nage, welwch chi mono fe o gwbl. Fe aeth e am dro gyda'i gariad cyn i'r tynnwr lluniau gyrraedd.** *No, you won't see him at all. He went for a walk with his sweetheart before the photographer arrived.*  
**Tynnwr lluniau:** *photographer*, literally means *picture puller*. Note that we say **tynnu llun:** *to take a photograph* (lit.: *to pull a photograph*).

#### Siarad am ddychwelyd i Batagonia *Talking about returning to Patagonia*

- 26 **Pam nad arhosi di yng Nghymru?** *Why don't you stay in Wales?*  
**Pam** is followed by either **na** or **nad** when negative verbs are to be conveyed, cf. **os** (L24, N3a). The verb following **na** or **nad** will be of an emphatic nature, e.g. **Pam nad ydyn nhw'n dod?:** *Why aren't they coming?;* **Pam nad ydy e'n mynd?:** *Why isn't he going?*
- 27 **Fe fuest ti ers pum mlynedd dros y môr ac mae'n hen bryd iti ddod adref.** *You've been overseas for five years and it's high time for you to come home.*
- a **Fe fuest ti:** *You have been* is the familiar *you* form of **fe fues i** (L17, N2a).
- b **hen bryd iti:** *high time for you* (lit.: *old time for you*) Note how the idiom **hen bryd** introduces the subject by means of **i**.
- 28 **Allaf i ddim, ar hyn o bryd, modryb, achos mae yna lawer rhagor o waith i'w wneud yno.** *I can't at the moment, aunty, because there's much more work to be done there.*
- a Note that **modryb** does not mutate (L21, N24a).
- b **mae yna lawer** (L16, N16a)
- 29 **Ond mae'r plant am aros. Fe dorriff Branwen ei chalon os na chaiff hi aros.** *But the children want to stay. Branwen will break her heart if she isn't (lit.: won't be) allowed to stay.*
- 30 **Efallai yr awn ni 'nol hebddi hi.** *Perhaps we'll go back without her.*
- 31 **Mae hi'n gobeithio y clywiff hi rywbeth o Goleg Harlech yn ystod y dyddiau nesaf.** *She hopes that she'll hear something from Coleg Harlech during the next (few) days.*
- 32 **Mae Mari a minnau'n eithaf gobeithiol y bydd hi'n llwyddiannus.** *Mari and I are quite hopeful that she'll be successful.*
- 33 **Dau docyn awyren o Lundain i Buenos Aires. Dydyn ni ddim wedi sicrhau lle i Branwen o gwbl.** *Two aeroplane tickets from London to Buenos Aires. We haven't secured a place for Branwen at all.*

## Part one: Vocabulary

mabolgampau (pl.) athletics

eitem(-au) item  
 erthygl article  
 rhestr list  
 sefyllfa situation  
 stiwdio studio

cloi to end; to lock

## Part one: Notes

- 1 Ysgrifennodd y BBC ataf i ddechrau'r wythnos yn gofyn imi ymddangos ar "Heddiw" cyn inni ddychwelyd. *The BBC wrote to me at the beginning of the week asking me to appear on "Heddiw" before we return.*
- a Ysgrifennodd y BBC ataf i Note that we say ysgrifennu at (and not i).
- b ddechrau (L16, N22c)
- c gofyn imi (L12, N27b)
- d "Heddiw" is a nightly BBC Welsh magazine programme.
- e cyn inni (L14, N2)
- 2 Rhyngon ni a'n gilydd rydw i'n teimlo'n lled nerfus yma yn y stiwdio. *Between ourselves (lit.: between us and each other) I'm feeling quite nervous here in the studio. lled nerfus: quite nervous (L9, N32)*
- 3 Fe gaf i fy holi gan Alun Daniel sy wedi bod yn cyflwyno'r rhaglen ers rhai blynyddoedd bellach. *I will be interviewed (lit.: questioned) by Alun Daniel who has been introducing the programme for some years now.*
- a Fe gaf i fy holi: *I shall be interviewed (L26, N11b)* Fe gaf i is the I form of the future tense of cael (App. 6).
- b gan Alun Daniel Gan introduces the person or thing that does the action when an impersonal pattern is used (L15, N23b). Alun Daniel is a fictitious television personality.
- 4 Fe ddes i hebddyn nhw ond fe welan nhw'r rhaglen yng Nghwmllynfi. *I came without them but they'll see the programme in Cwmllynfi.*
- 5 Rydw i'n siŵr yr edrychiff pawb yng Nghwmllynfi ar y rhaglen achos roedd erthygl amdanon ni yn y papur bro "Llais Llynfi" wythnos yn ôl. *I'm sure that everyone in Cwmllynfi will look at the programme because there was an article about us in the district paper "Llais Llynfi" a week ago.* Amdanon ni is the us form of am: about (App. 14(a) ii).
- 6 Roedd rhaid eu bod nhw'n brin o eitemau i ofyn i fi ymddangos heno. *They must have been short of items to ask me to appear tonight.* Roedd rhaid eu bod nhw (L24, N6a)

amdanon ni about us  
 cryn a lot of  
 drwyddi through it/her  
 gwleidyddol political  
 nerfus nervous  
 wyth ar hugain twenty eight  
 wythfed ar hugain twenty eighth

- 7 Mae gen i restr o eitemau'r rhaglen o fy mlaen. *I have a list of the programme's items in front of me.*
- 8 O edrych drwyddi fe welaf i fod cryn amrywiaeth yn yr eitemau. (By) *looking through it I see that there's a great variety in the items.*
- a The preposition o in front of a verb-noun conveys by, e.g. O fynd yn y car fe fyddaf i yno'n gyflym: *By going in the car I'll be there quickly.*
- b Drwyddi is the her, it form of drwy: through (App. 14(a) i).
- c Cryn precedes nouns and can convey a variety of meanings: moderate, great, numerous. When it means great or numerous it is very often followed by dipyn o, e.g. cryn dipyn o lyfrau: *very many books.* Cryn is always followed by a soft mutation.
- 9 Fe fydd dau Aelod Seneddol yn trafod y sefyllfa wleidyddol. *Two Members of Parliament will be discussing the political situation.*
- 10 Wedyn daw ffilm o grefftwr o ardal y Bala — saer rydw i'n meddwl. *Then there will be (lit.: will come) a film of a craftsman from the Bala district — a carpenter I think. y Bala (L11, N6c)*
- 11 Ffilm wedyn am fabolgampau, ac i gloi, fy eitem i. *A film then about athletics, and to end (lit.: lock), my item.* Cloi means literally to lock, e.g. Ydych chi wedi cloi'r drws?: *Have you locked the door?* It is also used to convey to draw something to a close, i.e. to wind up.

## Part two: Vocabulary

aelod member  
 ar gyhuddiad o accused of; on a charge of  
 arwyddion ffyrdd (pl.) road signs  
 batiad innings  
 canran percentage  
 Comisiwn Coedwigaeth Forestry Commission  
 corff body  
 criced cricket  
 cyffiniau vicinity  
 difrod damage  
 di-waith unemployment  
 drych mirror  
 eiddo property  
 gostyngiad decrease, reduction  
 gwallt hair  
 gwelliant improvement  
 llywodraeth government  
 newyddion (pl.) news  
 paent paint  
 pennawd (penawdau) headline  
 polisi (polisiau) policy  
 powdwr powder  
 prawf proof  
 trwyn nose  
 ymholiad(-au) inquiry

ynad(-on) magistrate  
 ysgrifennydd secretary

ael(-iau) eyebrow  
 coeden (coed), y goeden tree  
 coedwig, y goedwig forest  
 crib, y grib comb  
 erw acre  
 Glyn Ebwy Ebbw Vale  
 Gwlad yr Haf Somerset  
 Morgannwg Glamorgan  
 sgrin screen  
 siroedd (pl.) counties  
 wiced wicket

awgrymu to suggest  
 cael gwared â to get rid of  
 coluro to make up  
 cribo to comb  
 cyhoeddi to announce  
 dod o hyd i to find  
 drwgdybio to suspect  
 dweud wrtho i to tell me  
 gostwng to fall; to lower; to reduce  
 gwaethygu to deteriorate  
 gwella to improve  
 gwneud difrod to damage



sgorio to score

arnoch on you

ar y blaen in front, ahead

cam crooked

cyfrifol responsible

cynharach earlier

drosto fe over it/him

dros y Sul during the weekend

eich hun yourself (polite)

gwladol state

mai that

mewn llaw in hand

sylweddol substantial

y cant per cent

yn debyg o likely to

gwelliant sylweddol yn y ffigurau di-waith yng Nghymru yn ystod y tri mis a aeth heibio. *Today in London The Secretary of State for Wales said that there was a substantial improvement in the unemployment figures in Wales during the past three months (lit.: the three months that went by).* Note the formal pronunciation of **heddiw**, **Llundain** and **Ysgrifennydd**.

23 **Gostyngodd y canran o bump y cant i bedwar pwynt pump y cant.** *The percentage fell (lit.: lowered, reduced) from five per cent to four point five per cent.*

24 **Credid ar ddechrau'r flwyddyn y byddai'r sefyllfa'n gwaethygu, ond dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y gostyngiad yn brawf bod polisïau'r Llywodraeth yn llwyddo.** *It was believed at the beginning of the year that the situation would deteriorate, but the Secretary of State said that the decrease was proof that the Government policies were succeeding.* **Credid:** *It was believed (lit.: it used to be believed) (App. 6(b))* This is the short form of an impersonal verb in the imperfect tense, and is the short form of: **Roedd e'n cael ei gredu (L20, N5)**. Just as the ending **wyd** denotes the impersonal ending of the past tense (L15, N23b), so the ending **id** denotes the impersonal ending of the imperfect tense.

25 **Daethpwyd o hyd i gorff dyn yn Afon Teifi ger Aberteifi heddiw.** *A man's body was found in the River Teify near Cardigan today.*

**a Daethpwyd o hyd i** **Pwyd** is the impersonal, past tense ending of **dod:** *to come*. It is an irregular ending. The idiom **dod o hyd i** means *to find*, e.g. **Wyt ti wedi dod o hyd i'r papur eto?:** *Have you found the paper yet?*

**b Aberteifi:** *Cardigan* is a small town about forty miles south of Aberystwyth.

26 **Ni chyhoeddwyd ei enw eto gan fod yr heddlu'n dal i wneud ymholiadau ond credir ei fod tua chwe deg oed.** *His name hasn't been announced yet since the police are continuing to make inquiries but it is believed that he is about sixty years of age.*

**a Ni chyhoeddwyd ei enw:** *His name hasn't been announced* This is the literary form of **chyhoeddwyd mo'i enw**. The **ni** (or **nid**) precedes verbs and indicates a negative verb. The **ni** is either followed by a soft or an aspirate mutation – like **na** (L16, N16b). You will recognize the impersonal past tense ending **wyd**.

**b credir:** *it is believed* The ending **ir** is the impersonal ending of a present tense verb and this pattern is the short form of: **Mae e'n cael ei gredu (L20, N7a)**, e.g. **Dywedir:** *It is said (Mae e'n cael ei ddweud).*

27 **Bydd saith aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ymddangos o flaen ynadon Dolgellau yfory ar gyhuddiad o wneud difrod i arwyddion ffyrdd yng nghyffiniau'r dref dros y Sul.** *Seven members of the Welsh Language Society will be appearing before Dolgellau magistrates tomorrow accused (lit.: on a charge) of damaging (lit.: doing damage to) road signs in the vicinity of the town during the week-end (lit.: over the Sunday).* Note the more formal pronunciation of **Dolgellau**.

28 **Llosgwyd pum erw o goed o eiddo'r Comisiwn Coedwigaeth mewn tân neithiwr yng Nghoedwig Hafren yng Nghanolbarth Cymru.** *Five acres of trees belonging to the Forestry Commission were burned last night in a fire in Hafren Forest in Mid-Wales.*

## Part two: Notes

### Coluro To make up

- 12 **Chredais i ddim y cawn i fy ngholuro fel hyn.** *I didn't think (lit.: believe) that I would be made up like this.* **cawn i fy ngholuro** This is an alternative way of saying: **byddwn i'n cael fy ngholuro (L20, N5)**. The construction conveys an impersonal action. The tense is in the conditional since **cawn i** means *I would* (from **cael**). Note the pattern: a short conditional form of **cael (cawn i)** is followed by a pronoun (**fy**) followed by a verb-noun (**coluro**).
- 13 **Mae rhaid, neu fe fyddai eich wyneb yn edrych yn rhyfedd ar y sgrin.** *It must be (done) or your face would look odd on the screen.*
- 14 **'Nawr ychydig o'r powdwr yma ar eich wyneb.** *Now a little (bit) of this powder on your face.*
- 15 **Ydych chi'n ei roi e drosto fe i gyd?** *Do you put it all over it?* **Drosto fe** is the *him*, it form of **dros:** *over* (App. 14(a) i).
- 16 **ac ychydig o ddu ar eich aelïau. 'Nawr edrychwch arnoch eich hun yn y drych. Gwelliant?** *and a little (bit) of black on your eyebrows. Now look at yourself in the mirror. An improvement?* **Arnoch** is the polite *you* form of **ar:** *on*. **Eich hun** is used to refer to one person; **eich hunain** is the plural form (L14, N33b), (App. 13d).
- 17 **Rydw i'n rhy hen ichi wella fy wyneb i. Ac mae trwyn cam gen i, beth bynnag.** *I'm too old for you to improve my face. And I've got a crooked nose, anyway.*
- 18 **Rydych chi'n edrych yn iawn ond fe edrychwch chi'n well os cribwch eich gwallt.** *You look all right but you'll look better if you comb your hair.*
- 19 **Does dim crib gen i.** *I haven't got a comb.*
- 20 **Dyma un. Pob lwc ichi ar y rhaglen a dewch 'nol ataf i'n syth wedyn er mwyn imi gael gwared â'r powdwr a'r paent oddi ar eich wyneb.** *Here's one. Good (lit.: every) luck to you on the programme and come back to me immediately afterwards for me to get rid of the powder and the paint from (on) your face.*
- a Er mwyn:** *in order to* is followed by forms of **i** which introduce the subject, e.g. **er mwyn iddi hi:** *in order for her* (App. 14(c)).
- b cael gwared â:** *to get rid of*

### Newyddion News

- 21 **Dyma benawdau newyddion Cymru.** *Here are the news of Wales headlines.*
- 22 **Heddiw yn Llundain dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru fod**

- a **Llogwyd:** *Was/were burned* Note the impersonal past tense ending **wyd**.  
 b **O eiddo:** *belonging to* literally means *of the property of*.  
 c **Hafren** is the Welsh word for *Severn*, e.g. **afon Hafren:** *the river Severn*.
- 29 **Drwgdybir mai plant ysgol a welwyd yn gynharach yn y cyffiniau a oedd yn gyfrifol am ddechrau'r tân.** *It is suspected that school children who were seen earlier in the vicinity (that) were responsible for starting the fire.*
- a **Drwgdybir mai** Note the impersonal present tense ending, and **mai** the literary form of **taw** (L14, N33a).  
 b **a welwyd** The impersonal past tense verb **gwelwyd** has undergone a soft mutation after **a** (L16, N12a).  
 c **yn gynharach:** *earlier* This is the comparative form of **cynnar** (L23, N9b). Note how **nn** in **cynnar** has changed to **nh** when a syllable has been added (App. 11).  
 d **Cyffiniau** and **ddechrau'r** are pronounced formally here.  
 e **yn gyfrifol am** You will note that we say *responsible about*.
- 30 **Ac un sgôr criced i orffen. Yn y gêm rhwng y siroedd a chwaraewyd heddiw yng Nglyn Ebwy rhwng Morgannwg a Gwlad yr Haf y sgôr oedd Morgannwg 196 am bedair wiced.** *And one cricket score to finish. In the county match (lit.: the game between the counties) that was played today at (lit.: in) Ebbw Vale between Glamorgan and Somerset the score was Glamorgan 196 for four wickets. Glyn Ebwy: Ebbw Vale is about thirty miles north of Cardiff.*
- 31 **Yn y batïad cyntaf sgoriodd Gwlad yr Haf 305.** *In the first innings Somerset scored 305.* The **f** in **cyntaf** is pronounced in formal speech.
- 32 **Felly maen nhw 109 ar y blaen ond mae gan Forgannwg chwe wiced mewn llaw.** *Therefore they are 109 in the lead but Glamorgan have six wickets in hand.*

**Sgwrs am y rhaglen** *A chat about the programme*

- 33 **Yn anffodus welais i mono fe achos fy mod i allan ar y pryd.** *Unfortunately I didn't see him because I was out at the time.*  
**Achos** can be followed by the **fy mod i** pattern.
- 34 **Ond ti ydy'r ail i ddweud wrtho i amdano fe. Oedd e'n iawn?** *But you are the second to tell me about him. Was he all right?* **Wrtho i** is the *me* person of **wrth**.
- 35 **Roedd e'n ddiddorol iawn yn esbonio pam aeth e i weithio dros y môr a pha newidiadau y sylwodd e arnyn nhw ar ôl dychwelyd.** *He was very interesting explaining why he went to work overseas and what changes he noticed after returning.*
- a **a pha newidiadau** (L8, N31)  
 b **y sylwodd e arnyn nhw** (L15, N26b) Note that we say *notice on;* **arnyn nhw** is the *them* person of **ar:** *on*.
- 36 **Fe awgrymodd e hynny ar y rhaglen ond dywedodd e fod ganddo lawer rhagor o waith i'w wneud.** *He suggested that on the programme but he said that he had much more work to be done.*
- 37 **Prin ei fod e'n debyg o aros y tro yma. Ond rydw i'n gobeithio yr arhosiff Branwen.** *He's hardly likely to stay this time. But I hope that Branwen will stay.* **Prin** is followed by **y** (L24, N9a) when it

precedes a short form of the verb and the **fy mod i** pattern when it is in the present or perfect tense.

- 38 **Sawl chwaer sy gennyti ti?** *How many sisters have you got (lit.: that you have)?*

**Gwers naw ar hugain**

**Lesson twenty nine**

**Part one: Vocabulary**

alltud exile  
 atgof(-ion) memory  
 dyffryn(-noedd) valley  
 gorchwyl(-ion) task  
 plwm lead  
 prydferthwch beauty  
 swyddfa deithio travel agency

**Gorchwylion munud olaf**

**Last minute tasks**

ffarwelio â to bid farewell to  
 ambell waith sometimes  
 anos more difficult  
 harddaf prettiest  
 melys sweet  
 wrth ein bodd in our element,  
 delighted

**Part one: Notes**

- 1 **Mae ein gwyliau bron â dod i ben a daeth yn bryd inni ystyried troi 'nôl i'r Wladfa.** *Our holidays have nearly come to an end and the time has come (lit.: it came time) for us to consider going (lit.: turning) back to Patagonia.*
- 2 **Fe glywon ni y bore yma fod Branwen yn cael aros yng Nghymru i ddilyn cwrs yng Ngholeg Harlech.** *We heard this morning that Branwen can stay in Wales to pursue a course at (lit.: in) Coleg Harlech.*
- 3 **Roedden ni i gyd wrth ein bodd, yn enwedig Dewi.** *We were all delighted, especially Dewi.*
- 4 **Tra ei bod hi yno fe gaiff e ei chwmmi ambell waith.** *Whilst she's there he'll have her company sometimes.* **Tra:** *whilst* can be followed by the **fy mod i** pattern when the English *I am, he is, etc.* follows *whilst*.
- 5 **Roedd rhaid inni alw yn y banc y bore yma i drefnu rhai materion ariannol a'r prynhawn yma fe alwaf i yn y Swyddfa Deithio i sicrhau bod trefniadau'r daith 'nôl yn iawn.** *We had to call at (lit.: in) the bank this morning to arrange some financial matters and this afternoon I shall call at the Travel Agency (lit.: Office) to ensure that the arrangements for (lit.: of) the journey back are all right.*
- 6 **Mae'n anodd iawn i Gymry ymadael â'u gwlad ac mae fy nghalon fel y plwm wrth feddwl am adael y plant yma.** *It's very difficult for (lit.: to) Welshpeople to leave their country and my heart is heavy (lit.: like the lead) while thinking about leaving the children here.*

- 7 Ond ar ôl inni gyrraedd Trelew fe fydd gen i atgofion melys am wyliau bendigedig. *But after we reach Trelew I'll have sweet memories of a splendid holiday.* atgofion melys am Note that we say memories about.
- 8 Mae hi'n werth troi'n alltud i sylweddoli pa mor hyfryd ydy Cymru — ei phobl a'i thraddodiadau yn ogystal â'i phrydferthwch naturiol, ei chymoedd, ei llynnoedd, ei mynyddoedd a'i dyffrynnoedd sy gyda'r harddaf yn y byd. *It's worth becoming (lit.: turning) an exile in order to realize how pleasant Wales is — its people and its traditions, as well as its natural beauty, its valleys, its lakes, its mountains and its vales which are amongst (lit.: with) the prettiest in the world.* gyda'r harddaf: amongst the prettiest Note the superlative ending af (L23, N9b). Gyda is followed by the superlative form of an adjective to convey: to rank with.
- 9 Mae hi'n wlad fedrwch chi ddim peidio â'i charu. *It's a country that you can't avoid (lit.: stop) loving (it).*
- a fedrwch chi ddim: you can't Fedrwch also conveys na, the negative of the linking y (L18, N27).
- b Peidio â, as you know, is used to make a command negative. This is also the usual negative form of dweud as in: Dywedais i wrtho am beidio â dod: I told him not to come.
- 10 Mae hi'n anodd ffarwelio â hi ar unrhyw adeg ond fe fydd yn anos troi 'nôl heb y plant y tro yma. *It's difficult to bid farewell to it (lit.: with it) at any time but it will be more difficult to go back without the children this time.* Anos: more difficult is the comparative form of anodd: difficult, which forms its comparisons irregularly (App. 11c).

## Part two: Vocabulary

amserau (pl.) times  
 bysys (pl.) buses  
 cownter counter  
 cwestiynau (pl.) questions  
 hunangofiant autobiography  
 maes awyr airport  
 platform platform  
 syniad idea  
 teitl title

amserlen timetable  
 barddoniaeth, y farddoniaeth  
 poetry  
 cyfrol, y gyfrol volume

siop drin gwallt hairdresser's shop  
 ateb to answer  
 blingo to fleece; to skin  
 blino ar to be tired of  
 costio to cost  
 cyfnewid to swap, to exchange  
 gwylltio to lose control of oneself  
 trio to try

byrrach shorter  
 droston ni for us  
 hapusach happier  
 tonnog wavy

## Part two: Notes

Prynu llyfrau *Buying books*

- 11 Wnewch chi estyn hwyna imi, os gwelwch yn dda? *Will you pass that to me, please?* Wnewch chi estyn (L23, N13)

- 12 Y llyfr â llun dwy fenyw arno? *The book with the picture of two women on it?*
- 13 Ie, beth ydy'r teitl? *Yes, what's the title?*
- 14 "Tywyll Heno", nofel ydy hi gan Kate Roberts. *"Tywyll Heno", it's a novel by Kate Roberts.* Kate Roberts of Denbigh is a novelist and short story writer of considerable renown, and "Tywyll Heno" (lit.: "Dark Tonight") is one of her most successful novels.
- 15 Ond fe gymeraf i hon gan John Rowlands a honna ar y silff gan T. Rowland Hughes. *But I'll take this one by John Rowlands and that one on the shelf by T. Rowland Hughes.* John Rowlands and T. Rowland Hughes (1903–1949) are two Welsh novelists, both hailing from Gwynedd.
- 16 Dyna werth pum punt ac un deg wyth ceiniog. *A pheidiwch ag anghofio'r rheina ar y cownter arall. That's worth five pounds and eighteen pence. And don't forget those on the other counter.*
- 17 Mae hunangofiant, nofel a dwy gyfrol o farddoniaeth yno hefyd. *There are an autobiography, a novel and two volumes of poetry there too.* hunangofiant: autobiography (lit.: self biography); cofiant: biography
- 18 Roeddwn i wedi anghofio amdany'n nhw'n llwyr. *I had forgotten about them entirely.*

Y siop drin gwallt *The hairdresser's shop*

- 19 Wnewch chi ei dorri e'n fyrrach, os gwelwch yn dda? *Will you cut it shorter, please?* e'n fyrrach Byrrach is the short comparative form of byr, meaning shorter (L23, N9b).
- 20 Mae gwallt hir, tonnog, hardd gennyh chi. *You've got pretty, wavy, long hair.*
- 21 Ond rydw i wedi blino arno fe. *But I'm fed up with it (lit.: I'm tired on it).* We use blino ar to convey to be tired of something.
- 22 Fel sy gen i. *Gadewch inni gyfnewid. As I've got. Let's swap.*
- 23 Mae'n drueni fedrwn ni ddim. *Fe fyddwn i'n hapusach, beth bynnag. It's a pity that we can't. I would be happier, anyway.*
- a fedrwn ni ddim (Note 9a)
- b Hapusach is the comparative form of hapus, meaning happier (L23, N9b), (App. 11c).
- 24 Gaf i dorri ond ychydig ohono fe? *Mae gen i syniad newydd fydd yn siŵr o'ch taro i'r dim. May I cut just a little (bit) of it? I've got a new idea which is sure to suit you perfectly.* ond ychydig You see that ond means only, just here, although it usually means but. The usual combination of words for only is dim ond. Here the word dim is omitted but its presence and its meaning are taken for granted.
- 25 Chi sy'n gwybod. *You know (lit.: It's you who know).*
- 26 Fe dorraf i ychydig, yna ei olchi ac wedyn fe gewch chi weld. *I'll cut a little (bit), then wash it and afterwards you shall see.* fe gewch chi weld (L16, N39) Cewch here has a future meaning and no permission is implied.
- 27 Dydw i ddim yn un sy'n blingo myfyrwyr. *I'm not one who fleeces (lit.: skins) students.*

Amserau'r trêr *Train times*

- 28 Os daliwn ni drên pum munud i naw oddi yma fe gyrhaeddwn ni Gaerdydd erbyn pum munud ar hugain wedi deg. *If we catch the five minutes to nine train from here we'll reach Cardiff by twenty five past ten.*
- 29 Am y trydydd tro, Mari. Fe fydd e'n ymadael â phlatfform dau am ddeg munud wedi un ar ddeg ac yn cyrraedd Llundain am ugain munud i ddau. *For the third time, Mari. It will be leaving platform two at ten past eleven and reaching London at twenty to two.*
- 30 Ond beth am gyrraedd Maes Awyr Heathrow wedyn? *But what about reaching Heathrow Airport afterwards?*
- 31 Gallwn ni naill ai dal y bws neu gymryd tasci. *We can either catch the bus or take a taxi. naill ai... neu: either... or (L12, N9a)*
- 32 Fe gostiff dasci ormod. Oes amserlen bysys gennyf ti? *A taxi will cost too much. Have you got a bus timetable? Bysys is the way in which many people say buses. However, the more orthodox form of bysiau is also widely used. Note how we say bus timetable in Welsh (L1, N35d).*
- 33 Does dim eisiau gan fod y cwmni teithio sicrhaodd docynnau droston ni wedi trefnu bws o ganol Llundain. *There's no need since the travel company which secured tickets for us has arranged a bus from the centre of London.*
- a sicrhaodd or a sicrhaodd (L16, N12a)
- b Droston ni is the *us* form of *dros*: *over, for, on behalf of.*
- 34 A gobeithio fy mod i wedi ateb dy holl gwestiynau, madam. *And (I) hope that I've answered all your questions, madame.*
- 35 Paid â gwylltio, Tom. Dim ond trio helpu roeddwn i. *Don't lose control of yourself, Tom. I was only trying to help.*

## Gwers deg ar hugain

## Dewi'n poeni

## Lesson thirty

## Dewi worrying

## Part one: Vocabulary

cysur comfort  
gofid anxiety  
lleoedd (pl.) places

awyrenfa airport  
cymdeithas foduro motoring  
association  
dinasoedd (pl.) cities  
llygad (llygaid) eye  
siwrnai journey  
traffordd, y draffordd motorway

cael gan to receive from  
cuddio to hide

deg ar hugain thirty  
degfed ar hugain, y ddegfed ar  
hugain (f) thirtieth  
ynghau closed  
yn hwyr neu'n hwyrach sooner or  
later

## Part one: Notes

- 1 Ond mae'n gysur imi fod Branwen yn aros. Tra bôn ni'n dau gyda'n gilydd fydd pethau ddim cynddrwg. *But it's a comfort to me that Branwen is staying. Whilst we're together things won't be so bad. Tra bôn ni: Whilst we are (L24, N15a)*
- 2 Fe gawson ni chwe mis hapus yng nghwmni'n gilydd ac fe ymwelon ni â llawer o leoedd diddorol. *We had a happy six months in each other's company and we visited many interesting places. yng nghwmni'n gilydd (L21, N8)*
- 3 Ond 'nawr rhaid wynebu'r daith hyd y draffordd i Lundain i ffarwelio â nhw. Y fath siwrnai! *But now (I) must face the journey along the motorway to London to bid them farewell. What (lit.: Such) a journey! Siwrnai, from the English word journey, is widely used instead of taith.*
- 4 Ond drwy ddilyn y cyfarwyddiadau ges i gan y Gymdeithas Foduro fe ddoof i o hyd i'r awyrenfa'n hwyr neu'n hwyrach sbo. *But by (lit.: through) following the instructions that I had from the Motoring Association I'll find the airport sooner or later I suppose.*
- a ges i or a ges i (L16, N12a) Note that we say *cael gan*: to receive from (lit.: by).
- b fe ddoof i o hyd i: *I'll find (L28, N25a)*
- c Awyrenfa and maes awyr both mean *airport*.
- 5 Rydw i'n ceisio cuddio fy ngofid rhag ofn i 'mam boeni. *I'm trying to hide my anxiety in case mother worries. rhag ofn i mam (L21, N28b)*
- 6 Er imi fenthyg mapiau da gan ffrind bron na roiwn i unrhyw beth am beidio â mynd. *Although I borrowed good maps from a friend I would give almost anything not to be going.*
- a Er imi fenthyg Er, like *prin* (L28, N37), cannot be followed directly by a verb. The preposition *i* (or its various forms) follows *er*, followed in turn by a verb-noun (*fenthyg*). Note that the tense of *er imi fenthyg* is determined by the tense of the verb in the main part of the sentence, but it is usually the past tense.
- b bron na roiwn i: *I would give almost* Na usually has a negative function. After *bron* it only emphasizes the verb (*roiwn i*) that follows.
- 7 Fe edrychais i arnyn nhw gymaint bron na fedrwn yrru yno â fy llygaid ynghau. *I looked at them so much I could almost drive there with my eyes closed.*
- 8 Petai Ifor, y ffrind y ces i fenthyg y mapiau ganddo gyda fi, fyddwn i ddim yn poeni o gwbl gan mor gyfarwydd ydy e â gyrru mewn dinasoedd mawr. *If Ifor, the friend from whom I had the loan of the maps were with me, I wouldn't be worrying since he's so used to driving in big cities.*
- a y ffrind y ces i fenthyg y mapiau ganddo (L15, N26b)
- b gan mor gyfarwydd ydy Note how *gan*: since can be followed by *mor*: so, with the verb following (*ydy*) of an emphatic nature.

## Part two: Vocabulary

babi baby  
cwt (cytau) tail  
cyw chick

drychiolaeth apparition  
enwogrydd fame  
ffwl fool

Indiad Indian  
maint size  
sain sound  
Siapanead Japanese  
Sienead Chinese  
tanwydd fuel  
teithiwr (teithwyr) traveller  
tridiau three days  
twr heap

awyrennau (pl) aeroplanes  
mamau (pl.) mothers  
ymchwil research

becso to worry  
codi to lift

### Part two: Notes

Siân Jones yn yr Awyrenfa *Siân Jones at the Airport*

- 9 Welais i erioed y fath le. Mae yma rai o bob lliw a llun o bob gwlad dan haul. *I've never seen such a place. There are all kinds of people here (lit.: There are some here of every shape and colour) from every country under (the) sun.*
- 10 Indiad ydy honna a Sienead ydy hwnna, os nad ydw i'n camsynied. *That one is an Indian and that one is a Chinese, if I'm not mistaken.*
- 11 Nage, modryb. Siapanead ydy e. *No, aunty. He's a Japanese.*
- 12 O, ac edrycha ar faint yr awyrennau yna. Prin y credaf i y gallan nhw godi oddi ar y ddaear o ystyried eu maint. *Oh, and look at the size of those planes. I can hardly believe that they can lift off the ground considering their size.*
- 13 Mae'r ddwy yna'n gallu hedfan yn gynt na sain, ac yn yr un y maen nhw'n rhoi tanwydd ynddi ar y chwith y bydd 'mam a 'nhad yn mynd. *Those two can fly faster than sound and it's the one they're putting fuel in on the left that mother and father will be going in (lit.: fuel in it on the left that mother and father will be going).*
- a yn gynt na: *faster than* Cynt is the irregular comparative form of cyflym: *fast*.
- b y maen nhw... ynddi (L15, N26b)
- 14 Paid â sôn. Ond dyma nhw'n dod. Dydy dy fam ddim yn edrych yn rhyw hapus iawn. *Really (lit.: Don't mention). But here they come. Your mother isn't looking all that happy (lit.: some very happy).*  
Rhyw means *some*, but in a negative sentence it can be used in front of an adjective (which is sometimes followed by *iawn*) to convey almost the negative of the adjective, e.g. *Dydw i ddim yn rhyw denau iawn* suggesting *Rydw i'n eithaf tew: I'm quite fat*.
- 15 Pwy fyddai ar adeg fel yma? Gallwch fentro y cawn ni i gyd drafferth i beidio â llefain. *Who would be at a time like this? You can be assured that all of us will find it hard (lit.: have difficulty) not to cry.*
- a Pwy fyddai Byddai has changed to fyddai since verbs following pwy always undergo a soft mutation (L26, N11a).

dwyn to bring, to bear  
gwadnu to run away  
llefain to cry

cynt faster  
cyw melyn olaf last born child  
eich hunain yourselves  
eto another  
felly such  
gyda hyn presently  
mwyach any more; henceforth  
o bwys of importance  
os Duw a'i myn God willing  
pryderus worried  
wrth at

- b Llefain is pronounced *llefen*.  
16 paid â bod yn fabi, da ti. *don't be a baby, for goodness' sake.*

Edrych ymlaen at waith *Looking forward to work*

- 17 Tridiau eto ac fe fyddaf i 'nôl wrth fy ngwaith. *Another three days and I'll be back at my work.* To convey at a certain task or work wrth is used. If you want to say at it use wrthi, e.g. *Mae Dewi wrthi eto: Dewi's at it again.*
- 18 Alli di ddim anghofio am dy waith, alli di? Yr ysbyty, y cleifion, dy ymchwil. *You can't forget your work, can you? The hospital, the patients, your research.*
- 19 Mae'r gwaith y mae e'n ei wneud o bwys iddo fe ac o bwys i eraill, o ran hynny. *The work that he's doing is of importance to him and of importance to others, for that matter.* y mae e'n ei wneud (L17, N27d)
- 20 Dydw i ddim yn amau hynny ond sut ar wyneb daear gall e sôn am bethau felly a minnau'n dy adael di a Branwen yma? *I don't doubt that but how on earth can he talk (lit.: mention) about such things and me leaving you and Branwen here?*
- a Gall is the *he/she/it* form of both present and future tenses of gallu.  
b am bethau felly Felly usually means *therefore* or *so*. After nouns it can convey *such*, e.g. *Bachgen felly ydy e: He's that sort of boy.*
- 21 Ond Mari, dydyn nhw ddim yn blant mwyach. Yn Ariannin mae merched oed Branwen yn famau a chanddyn nhw dwr o blant wrth eu cytau. *But Mari, they're not children any more. In Argentina girls of Branwen's age are mothers and they've got lots (lit.: heap) of children (at their tails).*
- a Mwyach can mean either *any more* or *henceforth*. Note that *any more* refers to time and not to quantity of something, e.g. *Dydw i ddim yn mynd yno mwyach: I don't go there any more.*
- b a chanddyn nhw This is actually a *ganddyn* nhw. The *g* has become *ch* since *can* was the original form (and not *gan*). The word *canddyn* has become *chanddyn* nhw after *a: and*. It should be noted that this tends to be more of a literary rather than a spoken form.
- 22 Nid dyna'r pwynt. Hi ydy ein cyw melyn olaf ac allaf i ddim peidio â theimlo'n bryderus amdani. *That's not the point. She's our last born and I can't stop feeling worried about her.*
- a Nid dyna Note how *nid* can precede *dyna* (and *dyma*) to convey the negative, e.g. *Nid dyma'r llyfr: This is not the book.*
- b Cyw melyn olaf means literally *last yellow chick* and is a popular expression for the last born child in a family.
- 23 Peidiwch â becco, 'mam, fe gadwaf i olwg arni hi. Fe fydd hi'n dwyn enwogrwydd i'r teulu gyda hyn pan ddaw hi'n actores enwog. *Don't worry, mum, I'll keep an eye (lit.: look) on her. She'll bring fame to the family presently when she becomes a famous actress.*  
dwyn enwogrwydd Dwyn literally means *to carry*, but it can convey *to bring* or *to bear* news, fame, etc.

### 30 Ffarwelio To Bid Farewell

- 24 Mae rhai o'r teithwyr eraill eisoes wedi mynd draw at yr awyren. *Some of the other travellers have already gone over towards the aeroplane.*
- 25 Cofia ysgrifennu, Branwen, a thithau hefyd, Dewi. A chofiwch eich bod chi'n gofalu amdanoch eich hunain. *Remember to write, Branwen, and you too, Dewi. And remember that you take care of (lit.: about) yourselves. eich hunain: yourselves, cf. eich hunan: yourself (L11, N11a), (App. 13d)*
- 26 Fe wnawn ni hynny, 'mam. Peidiwch â phoeni. *We shall do that, mum. Don't worry.*
- 27 Cofiwch fi at y bechgyn yn Nhrelew a dywedwch fy mod i'n gobeithio dod i'w gweld nhw y flwyddyn nesaf, os Duw a'i myn. *Remember me to the boys in Trelew and say that I hope to come to see them next year, God willing (lit.: if God wills it).*
- a Cofiwch fi at Note that we say to remember towards a person.
- b i'w gweld nhw Just as i'w can mean to his or to her, it can also mean to them – i'w weld e: to see him; i'w gweld hi: to see her; i'w gweld nhw: to see them. Note how the person is indicated by the mutation (App. 13(b) 4).
- 28 Dere ymlaen, Mari, a phaid â gwneud ffŵl ohonot dy hun yn llefain fel yna. *Come on, Mari, and don't make a fool of yourself crying like that.*
- 29 Rwy't ti fel drychiolaeth. Mae'n well ichi ei gwadnu hi neu fe aiff yr awyren hebddoch chi. *You're like an apparition. You'd better run or the aeroplane will go without you.*

## Appendices

### Sounds section

The following words are used in the sounds section but do not appear elsewhere in the course.

cyffrous exciting  
inc ink  
pensil pencil.

In the alphabetical vocabulary they are referred to by ss instead of by a number.

## Appendices

	Page
1 BOD (to be)	188
2 The Regular Verb	190
3 Irregular Verbs	194
4 DYLWN (I ought to)	197
5 Commands	197
6 Impersonal Forms	198
7 Question Tags	199
8 The Article	200
9 Nouns	201
10 Adjectives	202
11 Comparison of Adjectives	203
12 Numerals	206
13 Pronouns	209
14 Prepositions	213
15 Adverbs	217
16 Mutations	218
17 Days, Months, Seasons, Time	222
18 Have/Has	223
19 Idioms with ar, gan and i	224
20 Questions and Answers	225
21 The Genitive Case	226

# 1 THE VERB BOD

**Bod:** *to be, the corner stone of the language, is given in its radical, interrogative (question), answer and negative forms.*

(a) **Present Tense**                      **Question**                      **Answer**                      **Negative**

Rydw i <i>I am</i>	Ydw i?	Ydw/Nac ydw	Dydw i ddim
Rwyt ti <i>You are</i>	Wyt ti?	Wyt	Dwyt ti ddim
Mae e <i>He is</i>	Ydy e?	Ydy	Dydy e ddim
Mae hi <i>She is</i>	Ydy hi?	Ydy	Dydy hi ddim
Rydyn ni <i>We are</i>	Ydyn ni?	Ydyn	Dydyn ni ddim
Rydych chi <i>You are</i>	Ydych chi?	Ydych	Dydych chi ddim
Maen nhw <i>They are</i>	Ydyn nhw?	Ydyn	Dydyn nhw ddim

Remember the important little word **yn** in using this tense, e.g. Rydw i'n canu. *I sing/I am singing.* Ydyn nhw'n dod? *Are they coming?* Dydy hi ddim yn siarad. *She isn't speaking.* Note the special forms (third person singular) **oes?** (L1, N35c), **sy** (L2, N21a) and **ydy** (L1, N1a) which are referred to in the notes.

(b) **Perfect Tense**

This is formed simply by substituting **wedi** for **yn**, e.g. Rydw i wedi canu. *I have sung.* Ydyn nhw wedi dod? *Have they come?* Dydy hi ddim wedi siarad. *She hasn't spoken.*

(c) **Perfect Continuous Tense**

Present of **bod + wedi bod yn**.  
e.g. Rydw i wedi bod yn canu. *I have been singing.*

(d) **Imperfect Tense**                      **Question**                      **Answer**                      **Negative**

Roeddwn i <i>I was, I used to be</i>	Oeddwn i?	Oeddwn	Doeddwn i ddim
Roeddet ti <i>You were</i>	Oeddet ti?	Oeddet	Doeddet ti ddim
Roedd e <i>He was</i>	Oedd e?	Oedd	Doedd e ddim
Roedd hi <i>She was</i>	Oedd hi?	Oedd	Doedd hi ddim
Roedden ni <i>We were</i>	Oedden ni?	Oedden	Doedden ni ddim
Roeddech chi <i>You were</i>	Oeddech chi?	Oeddech	Doeddech chi ddim
Roedden nhw <i>They were</i>	Oedden nhw?	Oedden	Doedden nhw ddim

(e) **Pluperfect Tense**

As with the Perfect Tense, this is formed by using the imperfect forms of **bod** and substituting **wedi** for **yn**, e.g. Roedd e wedi marw. *He had died.*

Oedden ni wedi gweld Tom? *Had we seen Tom?* Doeddech chi ddim wedi colli. *You hadn't lost.*

(f) **Pluperfect Continuous**

Roeddwn i wedi bod yn canu. *I had been singing.*

(g) **Future Tense**                      **Question**                      **Answer**                      **Negative**

Fe fyddaf i <i>I shall be</i>	Fyddaf i?	Byddaf	Fyddaf i ddim
Fe fyddi di <i>You will be</i>	Fyddi di?	Byddi	Fyddi di ddim
Fe fydd e <i>He will be</i>	Fydd e?	Bydd	Fydd e ddim
Fe fydd hi <i>She will be</i>	Fydd hi?	Bydd	Fydd hi ddim
Fe fyddwn ni <i>We shall be</i>	Fyddwn ni?	Byddwn	Fyddwn ni ddim
Fe fyddwch chi <i>You will be</i>	Fyddwch chi?	Byddwch	Fyddwch chi ddim
Fe fyddan nhw <i>They will be</i>	Fyddan nhw?	Byddan	Fyddan nhw ddim

**Fe** and **mi** (in North Wales) are often used before the affirmative forms of the Future, Conditional, Imperfect and Preterite forms of **bod**, causing a soft mutation. They are not obligatory and if they are not used no mutation occurs, e.g. Byddaf i yn y tŷ heno. *I shall be in the house tonight.* Fyddwch chi'n dod? *Will you be coming?* Fyddan nhw ddim yn dawnsio. *They won't be dancing.*

(h) **Future Perfect Tense**

This is formed by the Future of **bod + wedi**, e.g. Fe fyddaf i wedi gorffen erbyn un o'r gloch. *I shall have finished by one o'clock.* Fyddwn ni wedi bwyta? *Shall we have eaten?* Fydd e ddim wedi rhedeg. *He will not have run.*

(i) **Future Perfect Continuous Tense**

This is formed from the Future Tense of **bod + wedi bod yn + verb noun**, e.g. Fe fyddaf i wedi bod yn eistedd. *I shall have been sitting.*

(j) **Conditional and Habitual Tense**

Conditional + Habitual	Question	Answer	Negative
Fe fyddwn i <i>I would/used to</i>	Fyddwn i?	Byddwn	Fyddwn i ddim
Fe fyddet ti <i>You would</i>	Fyddet ti?	Byddet	Fyddet ti ddim
Fe fyddai fe <i>He would</i>	Fyddai fe?	Byddai	Fyddai fe ddim
Fe fyddai hi <i>She would</i>	Fyddai hi?	Byddai	Fyddai hi ddim
Fe fydden ni <i>We would</i>	Fyddden ni?	Bydden	Fyddden ni ddim
Fe fyddech chi <i>You would</i>	Fydddech chi?	Byddech	Fydddech chi ddim
Fe fydden nhw <i>They would</i>	Fyddden nhw?	Bydden	Fyddden nhw ddim



Apart from the 3rd person singular, note that the endings are exactly as for the Imperfect, Roeddwn i/roeddet ti/etc. You will also hear the forms Fe faswn i, Fe faset ti, Fe fasai e/hi, Fe fasen ni, Fe fasech chi, Fe fasen nhw.

(k) **Conditional Perfect**

This is formed by the Conditional Tense + **wedi**. Fe fyddai e wedi marw. He would have died. Fyddech chi wedi mynd? Would you have gone? Fyddwn i ddim wedi siarad. I wouldn't have spoken.

(l) **Perfect Conditional Continuous**

Fe fyddai e wedi bod yn cerdded. He would have been walking.

(m) **Past Tense**

Past Tense	Question	Answer	Negative
Fe fues i I was	Fues i?	Do/	Fues i ddim
Fe fuest ti You were	Fuest ti?	Naddo	Fuest ti ddim
Fe fuodd/fu e He was	Fuodd e?		Fuodd e ddim
Fe fuodd/fu hi She was	Fuodd hi?		Fuodd hi ddim
Fe fuon ni We were	Fuon ni?		Fuon ni ddim
Fe fuoch chi You were	Fuoch chi?		Fuoch chi ddim
Fe fuon nhw They were	Fuon nhw?		Fuon nhw ddim

(n) **Conditional Subjunctive\***

Petawn i (Were I to)	Petaen ni
Petaet ti	Petaech chi
Petai e	Petaen nhw
Petai hi	

Petawn i'n ifanc fe fyddwn i'n hapus. Were I young I would be happy. \*You will also hear pe bawn i, pe baet ti, pe bai e/hi, pe baen ni, pe baech chi, pe baen nhw; and pe baswn i, pe baset ti, pe basai e/hi, pe basen ni, pe basech chi, pe basen nhw.

The negative can be formed in two ways:

- (i) Petawn i ddim yn hapus. (the commoner colloquial form)  
 (ii) Pe na bawn i'n hapus. (the more literary form)

## 2 THE REGULAR VERB

Apart from the tenses marked x which have special endings added to the stem of the verb, the various tenses of the regular verb are formed by using the verb **bod**: to be, as an auxiliary. All regular verbs will follow the pattern of **canu**.

- (a) **Present Tense** This is formed from **bod + yn + verb-noun (canu)**

Rydw i'n canu I sing/am singing	Rydyn ni'n canu We sing/are singing
Rwyt ti'n canu You sing/are singing	Rydych chi'n canu You sing/are singing
Mae e'n canu He sings/is singing	Maen nhw'n canu They sing/are singing
Mae hi'n canu She sings/is singing	

**Questions**

Ydy e'n canu? Is he singing? Does he sing?  
 Ydych chi'n canu? Do you sing?

**Negative**

Dydyn ni ddim yn canu. We don't sing.  
 Dydych chi ddim yn canu. You don't sing.

(b) **Perfect Tense**

This is formed from the Present Tense of **bod + wedi + canu**.  
 Mae hi wedi canu. She has sung.  
 Ydyn nhw wedi canu? Have they sung?  
 Dydych chi ddim wedi canu. You haven't sung.

(c) **Perfect Continuous Tense**

Present Tense of **bod + wedi bod yn + canu**.  
 Rwyt ti wedi bod yn canu. You have been singing.  
 Ydy e wedi bod yn canu? Has he been singing?  
 Dydyn nhw ddim wedi bod yn canu. They haven't been singing.

(d) **Imperfect Tense**

Imperfect Tense of **bod + yn + canu**.  
 Roeddwn i'n canu. I was singing.  
 Oedd hi'n canu? Was she singing?  
 Doeddech chi ddim yn canu. You weren't singing.

(e) **Pluperfect Tense**

Imperfect Tense of **bod + wedi + canu**.  
 Roeddwn i wedi canu. I had sung.  
 Oedden nhw wedi canu? Had they sung?  
 Doedd e ddim wedi canu. He hadn't sung.

(f) **Pluperfect Continuous Tense**

Imperfect Tense of **bod + wedi bod yn + canu**.  
 Roedd e wedi bod yn canu. He had been singing.  
 Oedden ni wedi bod yn canu? Had we been singing?  
 Doeddech chi ddim wedi bod yn canu. You hadn't been singing.

(g) **Future Tense (Long form)**

Future Tense of **bod + yn + canu**.  
 Fe fydd e'n canu. He will be singing.

Fyddwch chi'n canu? *Will you be singing?*  
 Fydd hi ddim yn canu. *She won't be singing.*

(h) **Future Perfect Tense**

*Future Tense of bod + wedi + canu.*  
 Fe fydd e wedi canu. *He will have sung.*  
 Fyddwch chi wedi canu? *Will you have sung?*  
 Fydd e ddim wedi canu. *He won't have sung.*

(i) **Future Perfect Continuous Tense**

*Future Tense of bod + wedi bod yn + canu.*  
 Fe fyddaf i wedi bod yn canu. *I shall have been singing.*  
 Fydd hi wedi bod yn canu? *Will she have been singing?*  
 Fyddwn ni ddim wedi bod yn canu. *We won't have been singing.*

(j) x **Future Tense (Short form)**

*This is formed by adding endings to the stem of the verb canu.*

Future Tense	Question*	Answer**	Negative***
Fe ganaf i	Ganaf i?	Gwnaf/Na wnaif	Chanaf i ddim
Fe gani di	Gani di?	Gwnei	Chani di ddim
Fe ganiff e	Ganiff e?	Gwnaiff	Chaniff e ddim
Fe ganiff hi	Ganiff hi?	Gwnaiff	Chaniff hi ddim
Fe ganwn ni	Ganwn ni?	Gwnawn	Chanwn ni ddim
Fe ganwch chi	Ganwch chi?	Gwnwch	Chanwch chi ddim
Fe ganan nhw	Ganan nhw?	Gwnant	Chanan nhw ddim

\*Note that questions are formed by dropping fe but the mutation remains.

\*\*We use the future forms of gwneud to answer questions in the short form of the future tense except with gweld: to see, gwybod: to know, medru/gallu: to be able, hoff: to like, which can refer to the present.

\*\*\*In the negative, verbs whose initial letter is c, p, t, undergo an aspirate mutation; while those beginning with g, b, d, ll, m, rh have an initial soft mutation, e.g. Gorwedd – Orweddodd e ddim.

(k) x **Past Tense**

*This tense is also formed by adding endings to the stem.*

Past Tense	Question*	Answer**	Negative***
Fe ganais i	Ganais i?	Do/Naddo	Chanais i ddim
Fe ganaist ti	Ganaist ti?		Chanaist ti ddim
Fe ganodd e	Ganodd e?		Chanodd e ddim
Fe ganodd hi	Ganodd hi?		Chanodd hi ddim
Fe ganon ni	Ganon ni?		Chanon ni ddim
Fe ganoch chi	Ganoch chi?		Chanoch chi ddim
Fe ganon nhw	Ganon nhw?		Chanon nhw ddim

\*Questions are formed by dropping fe.

\*\*In the positive and negative answers for all persons use Do/Naddo.

\*\*\*In the negative, verbs beginning with c, p, t, undergo an aspirate mutation; while those beginning with g, b, d, ll, m, rh, undergo a soft mutation.

In the negative the definite object is preceded by mo (see App. 14(2)) with proper nouns and mo'r with definite nouns. Welais i mo Tom. I didn't see Tom. Chanais i mo'r gân. I didn't sing the song.

When mo is followed by a pronoun, it takes the personal forms noted in App. 14(2). Chlywodd e monoch chi. He didn't hear you. Phrynodd hi monyn nhw. She didn't buy them.

(l) **Conditional Tense (Long form)**

*This is formed from the Conditional Tense of bod + yn + canu.*  
 Fe fyddwn i'n canu. *I would sing.*  
 Fyddai fe ddim yn canu. *He wouldn't sing.*  
 Fyddech chi'n canu? *Would you sing?*

(m) **Conditional Perfect Tense**

*Conditional Tense of bod + wedi + canu.*  
 Fe fydden nhw wedi canu. *They would have sung.*  
 Fyddai Tom ddim wedi canu. *Tom wouldn't have sung.*  
 Fydden ni wedi canu? *Would we have sung?*

(n) **Perfect Conditional Continuous Tense**

*Conditional Tense of bod + wedi bod yn + canu.*  
 Fe fyddai fe wedi bod yn canu. *He would have been singing.*  
 Fyddech chi wedi bod yn canu? *Would you have been singing?*  
 Fydden nhw ddim wedi bod yn canu. *They wouldn't have been singing.*

(o) x **Conditional Tense (Short form)**

*This is formed by adding endings to the stem of the verb.*

Conditional	Question	Answer*	Negative
Fe ganwn i	Ganwn i?	Gwnawn/Na wnawn	Chanwn i ddim
Fe ganet ti	Ganet ti?	Gwnaet	Chanet ti ddim
Fe ganai fe	Ganai fe?	Gwnai	Chanai fe ddim
Fe ganai hi	Ganai hi?	Gwnai	Chanai hi ddim
Fe ganen ni	Ganen ni?	Gwnaen	Chanen ni ddim
Fe ganech chi	Ganech chi?	Gwnaech	Chanech chi ddim
Fe ganen nhw	Ganen nhw?	Gwnaen	Chanen nhw ddim

\*Note the use of gwneud in answering questions. This applies to most verbs except gwybod, hoffi, gallu and medru.

### 3

#### IRREGULAR VERBS

The five important irregular verbs are **mynd**: to go, **dod**: to come, **cael**: to have, **gwneud**: to do/make, and **gwybod**: to know a fact. Although they are irregular as a group, they are perfectly regular within themselves. They are only irregular in the tenses noted below.

(a) **Mynd**: to go

1 Future Tense	Question	Answer	Negative
Fe af i I shall go	Af i?	Ei/Ewch	Af i ddim
Fe ei di You shall go	Ei di?	Af	Ei di ddim
Fe aiff e He will go	Aiff e?	Aiff	Aiff e ddim
Fe aiff hi She will go	Aiff hi?	Aiff	Aiff hi ddim
Fe awn ni We shall go	Awn ni?	Awn/Ewch	Awn ni ddim
Fe ewch chi You will go	Ewch chi?	Af/Awn	Ewch chi ddim
Fe ân nhw They will go	Ân nhw?	Ân	Ân nhw ddim

The irregular verbs **dod**, **gwneud** and **cael** also conform to this pattern, forming questions and negative statements in exactly the same way. To say 'yes' and 'no' with these verbs we use the appropriate person of the same verb, e.g. **Aiff e i Gaerdydd?** **Aiff**: Will he go to Cardiff? **Yes**. **Ewch chi i Gaerdydd?** **Af**: Will you go to Cardiff? **Yes**.

2 Conditional Tense

Fe awn (elwn) i I would go	Fe aen (elen) ni We would go
Fe aet (elet) ti You would go	Fe aech (elech) chi You would go
Fe âi (elai) e/hi He/She would go	Fe aen (elen) nhw They would go

Both forms are quite common.

3 Past Tense

Fe es i I went	Fe aethon ni We went
Fe est ti You went	Fe aethoch chi You went
Fe aeth e/hi He/She went	Fe aethon nhw They went

4 Imperative

**Cer** (dos in North Wales): go (familiar form).

**Ewch** (cerwch in South Wales): go (polite and plural form).

(b) **Dod**: to come

1 Future Tense (Short form)

Fe ddof i I shall come	Fe ddown ni We shall come
Fe ddoi di You will come	Fe ddewch chi You will come
Fe ddaw e/hi He/She will come	Fe ddôn nhw They will come

2 Conditional Tense

Fe ddown (delwn) i I would come	Fe ddoen (delen) ni We would come
Fe ddoet (delet) ti You would come	Fe ddoech (delech) chi You would come
Fe ddôi (delai) e/hi He/She would come	Fe ddoen (delen) nhw They would come

Both forms are quite common.

3 Past Tense

Fe ddes i I came	Fe ddaethon ni We came
Fe ddest ti You came	Fe ddaethoch chi You came
Fe ddaeth e/hi He/She came	Fe ddaethon nhw They came

4 Imperative

**Dere** (tyrd in North Wales): come (familiar form).

**Dewch**: come (polite and plural form).

(c) **Gwneud**: to make

1 Future Tense (Short form)

Fe wnaif i I shall do/make	Fe wnawn ni We shall do/make
Fe wnei di You will do/make	Fe wnewch chi You will do/make
Fe wnaiff e/hi He/She will do/make	Fe wnaân nhw They will do/make

2 Conditional Tense

Fe wnawn (gwnelwn) i I would do/make	Fe wnaen (gwnelen) ni We would do
Fe wnaet (gwnelet) ti You would do	Fe wnaech (gwnelech) chi You would do
Fe wnaï (gwnelai) e/hi He/She would do	Fe wnaen (gwnelen) nhw They would do

Both forms are commonly used.

3 Past Tense

Fe wnes i I did/made	Fe wnaethon ni We did/made
Fe wnest ti You did/made	Fe wnaethoch chi You did/made
Fe wnaeth e/hi He/She did/made	Fe wnaethon nhw They did/made

4 Imperative

**Gwna**: do/make (familiar form).

**Gwnewch**: do/make (polite and plural form).

(d) **Cael: to have**

1 **Future Tense (Short form)**

Fe gaf i <i>I shall have</i> Fe gei di <i>You will have</i> Fe gaiff e/hi <i>He/She will have</i>	Fe gawn ni <i>We shall have</i> Fe gewch chi <i>You will have</i> Fe gân nhw <i>They will have</i>
---	--

2 **Conditional Tense**

Fe gawn (celwn) i <i>I would have</i> Fe gaet (celet) ti <i>You would have</i>  Fe gâi (celai) e/hi <i>He/She would have</i>	Fe gaen (celen) ni <i>We would have</i> Fe gaech (celech) chi <i>You would have</i> Fe gaen (celen) nhw <i>They would have</i>
---	--

3 **Past Tense**

